- HP5 Roedd y trefniadau ar gyfer y cyfnod rhwng y carcharorion yn cyrraedd ac yn cael eu rhoi yn y ddalfa fwy neu lai heb newid ers ein harolygiad diwethaf. Er bod cyfleusterau'r derbynfeydd yn wael ar y ddau safle, roedd y prosesau ar y cyfan yn parhau i ddiwallu anghenion y carcharorion a oedd newydd gyrraedd, yn bennaf oherwydd bod eu nifer yn isel, yn enwedig ym Mrynbuga. Roedd y carcharorion a oedd newydd gyrraedd yn cael eu prosesu'n gyflym ac yn cael eu lleoli yn y prif garchar. Roedd trefniadau noson gyntaf yn cynnwys cyfweiliad un-i-un ag aelod o staff, ac roeddent yn briodol. Roedd y rhaglen ymsefydlu'n cymryd tua wythnos i'w chwblhau. Roedd gan garchar Prescoed raglen pum diwrnod strwythuredig, ond roedd y rhaglen ym Mrynbuga'n fwy hyblyg, oherwydd y niferoedd is, ac roedd ar sail un-i-un yn bennaf.
- HP6 Roedd Brynbuga a Phrescoed yn sefydliadau diogel yn y bôn. Prin oedd unrhyw dystiolaeth o fwlio, a phrin oedd yr ymosodiadau neu anafiadau anesboniadwy a oedd wedi'u cofnodi. Er bod y deilliannau i'r carcharorion yn dda, nid oedd y rheolaeth yn achos carchariad mwy diogel yn effeithiol. Roedd yr uwch reolwyr wedi cydnabod bod trefniadau llywodraethu wedi bod yn wael tan yn ddiweddar iawn, ac roeddent wedi diwygio prosesau yn ystod yr wythnosau cyn yr arolygiad. Roedd polisi newydd wedi'i roi ar waith, ond nid oedd eto wedi ennill ei blwyf. Rôl mewn enw yn unig oedd rôl y cydlynedd carchariad mwy diogel/gwrth-fwlio ym Mrynbuga, ac roedd dryswch ynglŷn â phwy oedd yn gyfrifol am gyflawni'r rôl hon ym Mhrescoed.
- HP7 Prin oedd yr achosion o hunan-niweidio ym Mrynbuga, ac nid oedd unrhyw achosion o hyn ym Mhrescoed yn ddiweddar. Fodd bynnag, roedd y sefyllfa hon wedi achosi hunanfodddhad ymhlith y staff, ac roeddem yn bryderus nad oedd unrhyw aelod o staff ym Mhrescoed wedi cael hyfforddiant mewn *asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT)* yn ymwneud â *monitro hunan-niweidio*. Mewn cyferbyniad, roedd yn ymddangos bod carchar Brynbuga'n dibynnu'n ormodol ar y broses ACCT i ddelio ag argyfyngau lefel isel ymhlith carcharorion, er mai pryder go iawn ynglŷn â'u lles oedd wrth wraidd hyn. Roedd peth tystiolaeth hefyd o ddull ar ôl yr oes o ddelio â hunan-niweidio, sef dull a oedd wedi'i seilio ar y dybiaeth mai anhwylder sy'n galw am driniaeth feddygol ydyw. O'r herwydd, roedd rhai carcharorion wedi'u trosglwyddo i fod yn gleifion mewnol mewn sefydliadau eraill pan oedd ffurflen ACCT wedi'i hagog. Gallai hyn fod yn anghymhelliad i garcharorion ddod ymlaen i geisio help.
- HP8 Nid oedd yna uned wahanu ym Mrynbuga nac ym Mhrescoed, heblaw am ystafell ddal yn y dderbynyfa ym Mrynbuga a ddefnyddir yn bur anaml. Anaml iawn oedd grym yn cael ei ddefnyddio, ond lle roedd angen ei ddefnyddio roedd wedi'i gofnodi'n briodol. Yn yr un modd, cyfyngedig oedd y defnydd o ddyfarniadau.

- HP9 Roedd y defnydd o gyffuriau ymhlith y carcharorion yn isel, ac awgrymodd data profion cyffuriau gorfodol diweddar gyfradd prawf positif a oedd yn llai na 3%. Nid oedd unrhyw drefniadau ar gyfer triniaeth ddadwenwyno neu driniaeth gynnal.
- HP10 Yn gyffredinol, er bod y ddau safle wedi parhau i fod yn lleoedd diogel i garcharorion, roedd y llithro'n ôl yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer carchariad mwy diogel yn golygu nad oedd cyfiawnhad ar y pryd i'n marc uchaf. Roedd y sefydliad bellach yn perfformio'n weddol dda o'i fesur yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

## Parch

---

- HP11 Yn 2005, dangosodd ein hasesiad o garchardai Brynbuga a Phrescoed eu bod yn perfformio'n weddol dda o'i fesur yn erbyn y prawf carchar iach hwn. O'r 39 argymhelliad yn y maes hwn yn ein harolygiad diwethaf, roedd 17 wedi'u cyflawni, roedd wyth wedi'u cyflawni'n rhannol, ac roedd 14 heb eu cyflawni.
- HP12 Roedd yr amgylchedd cyffredinol ym Mrynbuga a Phrescoed yn dda, ac roedd yr ardaloedd cyffredin wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. O ystyried oedran carchar Brynbuga, roedd yn ganmoladwy fod y sefydliad yn lân ac yn olau, er bod gofyn i fwyafrif y carcharorion rannu cell oedd wedi'i chynllunio ar gyfer un, ac nid oedd y sgriniau'n ddigonol yn y cawodydd. Roedd y llety ym Mhrescoed yn rhesymol, ac roedd yn weddol rhwydd cael defnyddio ffôn yn y ddau garchar. Roedd yna gyfyngiadau diangen ar y carcharorion o ran gwisgo'u dillad eu hunain.
- HP13 Roedd trefniadau cymhellion a breintiau haeddiannol yn deg ac yn offeryn ysgogi derbyniol. Nid oedd fawr o wahaniaeth rhwng y drefn uwch a'r drefn safonol, ond roedd rhai breintiau ychwanegol, fel ymweliadau â'r teulu y tu allan i'r carchar, ar gael i rai carcharorion ym Mhrescoed. Un carcharor yn unig oedd ar y drefn sylfaenol.
- HP14 Roedd y perthnasoedd rhwng y staff a'r carcharorion yn hamddenol. Dywedodd y carcharorion fod y staff yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar, a gwelsom ryngweithio personol da. Fodd bynnag, er bod lefelau gwybodaeth y staff am y carcharorion yn dda, nid oedd hyn wedi'i adlewyrchu yn ffeiliau'r esgyll, a oedd yn wael. Roedd cynllun swyddogion personol ar waith, ac roedd gan y carcharorion swyddogion personol oedd wedi'u henwi, ond prin oedd y dystiolaeth fod y cynllun wedi gwneud unrhyw argraff. Hefyd, nid oedd y gwaith swyddogion personol-a-mwy roedd y carchar yn dyheu amdano, ac a oedd yn galw ar swyddogion personol i ymgysylltu â theuluoedd, yn gweithio.
- HP15 Adeg ein harolygiad, roedd cegin Prescoed yn cael ei hailwampio ac roedd prydau'n cael eu cyflenwi o gegin Brynbuga. Roedd yr arlwyo ar y ddau safle'n dda, er bod cyfleuster Brynbuga'n fach. Roedd yna drefniant lle roedd prydau'n cael eu dewis ymlaen llaw, ac roedd y bwyd y gwelsom yn cael ei weini'n dderbyniol ei gyflwyniad ac yn boeth.
- HP16 Roedd dull y carchar o drin amrywiaeth yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion carcharorion hŷn – roedd 51 ohonynt dros 60 oed. Roedd cynlluniau symudedd a gofal yn cael eu darparu yn ôl y galw, ac roedd iechyd pob carcharor dros 65 oed yn cael ei sgrinio. Roedd y rhai dros 65 oed hefyd yn cael teledu'n rhad ac am ddim.
- HP17 Roedd gwaith cydraddoldeb hiliol yn cael ei reoli'n dda. Roedd yna swyddog cydraddoldeb hiliol amser llawn ymrwymedig, a thîm gweithredu cydraddoldeb hiliol (TGCH) uchel ei broffil, dan gadeiryddiaeth y llywodraethwr. Roedd gwybodaeth reoli'n cael ei dadansoddi'n briodol, ac roeddent yn ceisio cysylltiadau cefnogi cymunedol. Roedd cynrychiolwyr carcharorion wedi'u penodi, ac roedd y trefniadau ymgynghori'n rhesymol. Roedd nifer y ffurflenni adrodd ar ddigwyddiadau hiliol yn isel, ond roedd ymchwiliadau priodol i'r rhain. Fodd bynnag, 11 yn unig

o garcharorion o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig oedd ym Mhrescoed, ac roedd angen gwneud ymholiadau brys ynglŷn â hyn.

- HP18 Roedd yna ddogfen bolisi ar gyfer rheoli carcharorion tramor, ond nid oedd llawer o hwn wedi'i roi ar waith. Roedd yna rai cysylltiadau â'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo (Asiantaeth Ffiniau'r DU er 1 Ebrill 2008), ond, heblaw am rywfaint o drafodaeth yng nghyfarfod y TGCH, nid oedd unrhyw fforwm i ystyried anghenion carcharorion tramor, nid oedd unrhyw ymgynghori uniongyrchol â gwladolion tramor, ac nid oedd unrhyw gefnogaeth i'r cydlynnydd gwladolion tramor.
- HP19 Roedd y gweithdrefnau ceisiadau a chwynion ym Mrynbuga a Phrescoed fel ei gilydd yn foddhaol ar y cyfan, er y bu peth cynnydd yn nifer y cwynion ym Mrynbuga ers ein hymweliad diwethaf. Roedd y methodolegau ar gyfer monitro cwynion a sicrhau ansawdd yn annatblygedig, ac roedd angen eu gwella.
- HP20 Roedd yna ddau gaplan amser llawn yr oedd caplaniaid rhan-amser a sesiynol yn eu cefnogi i ddiwallu anghenion crefyddau lleiafrifol. Roedd caplan Moslemaidd y carchar yn mynychu'r carchar un diwrnod yr wythnos. Roedd y gaplaniaeth yn cyfrannu'n llawn at drefn y sefydliad, ac roedd yn ymddangos ei bod wedi'i hintegreiddio'n dda a'i bod yn cael ei gwerthfawrogi.
- HP21 Roedd y cyfleusterau gofal iechyd ym Mrynbuga'n fach, yn gyfyng ac yn ei gwneud yn anodd cadw cyfrinachedd carcharorion, ond roedd ariannu ar gyfer canolfan iechyd newydd wedi'i gymeradwyo. Roedd y cyfleusterau gofal iechyd ym Mhrescoed yn dda. Roedd meddyg teulu o fewn cyrraedd rhwydd i'r carcharorion, ac roedd carcharorion a oedd newydd gyrraedd yn cael eu sgrinio'n effeithiol er mwyn targedu'r rheiny yr oedd angen gwasanaethau iechyd meddwl mewngymorth arnynt. Roedd yna gysylltiadau effeithiol rhwng gofal iechyd a'r gampfa, yn enwedig i gefnogi anghenion carcharorion hŷn. Roedd angen llywodraethu gwasanaethau fferyllol yn well.
- HP22 Ar sail yr arolygiad dilynol byr hwn, roeddem yn ystyried bod y carchar yn parhau i berfformio'n weddol dda o'i fesur yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

## Gweithgarwch â phwrpas

---

- HP23 Yn 2005, dangosodd ein hasesiad o garchardai Brynbuga a Phrescoed eu bod yn perfformio'n dda o'i fesur yn erbyn y prawf carchar iach hwn. O'r wyth argymhelliad yn y maes hwn yn ein harolygiad diwethaf, roedd tri wedi'u cyflawni, roedd un wedi'i gyflawni'n rhannol, ac roedd pedwar heb eu cyflawni.
- HP24 Roedd y ddarpariaeth dysgu ym Mrynbuga a Phrescoed yn cael ei rheoli'n dda, gyda chwricwlwm eang a rhai o'r carcharorion yn symud ymlaen o lefel sgiliau sylfaenol i addysg uwch. Roedd yna gyfleoedd amrywiol ar gyfer dysgu mewn dosbarthiadau, dysgu mewn amgylcheddau dysgu agored, a dysgu wedi'i ymgorffori yn y gweithle. Roedd yna hefyd ystod amrywiol o gyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol ar gael ar y ddau safle, gan gynnwys hyfforddiant mewn gweithdai, hyfforddiant TG a dylunio, a hyfforddiant ar fferm weithio. Fodd bynnag, er mai'r bwriad oedd ehangu'r ddarpariaeth cyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol, araf deg oedd datblygiad y rhain.
- HP25 Roedd rhyw fath o weithgaredd wedi'i bennu ar gyfer pob carcharor ym Mrynbuga, ac ar gyfer mwyafrif y carcharorion ym Mhrescoed. Fodd bynnag, cwtogwyd ar y gweithgareddau ym Mhrescoed pan gafwyd gostyngiad yn flaenorol yn nifer y carcharorion, ond yn ddiweddar cafwyd cynnydd sydyn yn y niferoedd o ganlyniad i bwysau poblogaeth ehangach, ac mae hyn wedi golygu bod gwaith annigonol weithiau ar gyfer carcharorion. Roedd hyn hefyd wedi digwydd ym Mrynbuga, ac roedd ansawdd peth o'r gwaith yn sylfaenol iawn. Roedd oddeutu traean o boblogaeth Prescoed yn gweithio y tu allan i'r carchar, boed am dâl neu'n wirfoddol.



- HP26 Roedd yr adran addysg gorfforol (AG) yn fach, ond er hynny roedd yn golygu bod gweithgareddau adloniadol yn hygyrch iawn ar y ddau safle. Bu gwelliant i ansawdd y cyfleusterau ym Mrynbuga, ac roedd yna ymdrechion i ddarparu ar gyfer anghenion amrywiol poblogaeth hŷn. Fodd bynnag, roedd darpariaeth hyfforddiant AG achrededig yn annatblygedig.
- HP27 Roedd yr amser allan o'r gell ym Mrynbuga ar y cyfan yn well na'n disgwyliadau, sef 10 awr y dydd, ac roedd y drefn ym Mhrescoed yn gwbl agored.
- HP28 Ar sail yr arolygiad dilynol byr hwn, roeddem yn ystyried bod y carchar yn parhau i berfformio'n dda o'i fesur yn erbyn y prawf carchar iach hwn, er gwaethaf rhai pwysau roedd angen rhoi sylw iddynt.

## Ailsefydlu

---

- HP29 Yn 2005, dangosodd ein hasesiad o garchardai Brynbuga a Phrescoed eu bod yn perfformio'n weddol dda o'i fesur yn erbyn y prawf carchar iach hwn. O'r 20 argymhelliad yn y maes hwn yn ein harolygiad diwethaf, roedd 10 wedi'u cyflawni, roedd pedwar wedi'u cyflawni'n rhannol, ac roedd chwech heb eu cyflawni.
- HP30 Ar ffurf drafft yn unig oedd y polisi ailsefydlu o hyd, ac nid oedd y pwyllgor polisi ailsefydlu'n cyfarfod yn rheolaidd. Ym Mrynbuga, roedd yna ddiffyg eglurder ynghylch anghenion ailsefydlu'r boblogaeth, ac ynghylch sut i gyflenwi trefn ailsefydlu yng nghyd-destun gofynion sylweddol amddiffyn y cyhoedd. Roedd gan garchar Prescoed ddull fesul cam o drin ailsefydlu, a oedd yn hwyluso gwaith yn y gymuned, ond fawr mwy na hynny, ac nid oedd yn rhoi digon o sylw i'r agenda lleihau aildroseddu. Roedd dull strategol o drin y llwybrau ailsefydlu'n annatblygedig yn gyffredinol.
- HP31 Roedd mwyafrif helaeth y gwaith rheoli troseddwy'r yn mynd rhagddo ym Mrynbuga, lle roedd 158 o garcharorion yng nghwmpas gwaith rheolaeth ffurfiol ar droseddwy'r. Roedd y staff yn ymdopi â llwyth gwaith heriol, er bod cofnodion y bwrdd cynllunio dedfrydau'n amrywiadwy. Roedd cynllunio dedfrydau wedi'i ymgorffori'n dda ym Mhrescoed. Roedd anghenion unigolion yn cael eu hasesu yn ystod y rhaglen ymsefydlu, ond roedd defnyddio data cyfansymiol y ddau safle i ddarparu sail ar gyfer y drefn ailsefydlu, a'i chynllunio'n strategol, yn annatblygedig.
- HP32 Roedd y trefniadau ar gyfer carcharorion oedd yn bwrw dedfryd oes wedi gwella ers ein hymwelid diwethaf. Roedd y carchar yn dal 31 carcharor oes, a phum carcharor a oedd yn bwrw dedfryd amhenodol er amddiffyn y cyhoedd. Roedd y cyfleusterau ar gyfer carcharorion oes wedi gwella, roedd y gwaith achos wedi'i ddiweddarau, ac roedd y rheolwr carcharorion oes yn sicrhau lefelau rhesymol o ymgynghori. Roedd rhai carcharorion oes yn gwneud cynnydd, gan gynnwys nifer a oedd wedi'u rhyddhau ar barôl yn ystod y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd diffyg mewnbwn seicolegwyr yn effeithio ar y gwaith â charcharorion oes.
- HP33 Prin oedd y ddarpariaeth i ateb anghenion carcharorion am lety pan roeddent yn cael eu rhyddhau. Roedd y rheiny a oedd yn dychwelyd i Gymru'n derbyn cymorth, ond cyfyngedig oedd y ddarpariaeth i eraill. Roedd yna rywffaint o gefnogaeth trwy'r Ganolfan Byd Gwaith a NACRO i gynorthwyo â chyllid, budd-daliadau a materion yn ymwneud â dyled, ond roedd hon yn sylfaenol ac yn annatblygedig. Roedd y dull o drin addysg, hyfforddiant a gwaith ailsefydlu mewn cyflogaeth yn fwy datblygedig. Roedd gan y carchar gysylltiadau da hefyd â Gyfa Cymru i sicrhau bod hyfforddiant perthnasol yn targedu anghenion yng Nghymru, ac i gynnig cyngor a chyfarwyddyd.

- HP34 Roedd tîm o bum gweithiwr gwasanaethau cwnsela, asesu, atgyfeirio, cyngori a gofal drwodd yn cefnogi gwaith ar gamddefnyddio sylweddau. Roedd eu trefniadau hyfforddi wedi gwella, ac roedd system rheoli achosion TG a oedd newydd ei chyflwyno wedi cynyddu'r amser a oedd ar gael i'w cleientiaid, yn enwedig y rheiny a oedd yn cael eu dal yn uned profion cyffuriau gwirfoddol Prescoed. Roedd y staff gofal iechyd yn gweld pob un o'r carcharorion cyn iddynt gael eu rhyddhau, ac yn rhoi cyflenwad o unrhyw feddyginiaethau rhagnodedig i bara mis. Roedd y trefniadau gofal drwodd ar gyfer carcharorion ag anghenion iechyd meddwl parhaus yn foddhaol.
- HP35 Roedd y mentrau ym Mhrescoed i gefnogi teuluoedd yn cynnwys partneriaeth â'r awdurdod lleol a oedd yn dysgu sgiliau chwarae i dadau, y rhaglen *Story Book Dads*, ac ymweliadau teulu estynedig neu ymweliadau â'r teulu yn y dref. Roedd y gefnogaeth ar gyfer teuluoedd yn llai datblygedig ym Mrynbuga.
- HP36 Roedd yna rai rhaglenni i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol carcharorion, gyda ffocws ar ystod o ymyriadau troseddwy'r rhyw ym Mrynbuga. Fodd bynnag, roedd diffyg mewnbwn seicolegwyr wedi amharu ar lawer o'r gwaith hwn. Roedd gwaith ysgogi gyda throseddwy'r rhyw hefyd yn gyfyngedig iawn, er gwaethaf barn y carchar ei hun bod hanner carcharorion Brynbuga yn gwrthod cydnabod eu trosedd.
- HP37 Ar sail yr arolygiad dilynol byr hwn, roeddem yn ystyried bod Prescoed yn parhau i berfformio'n weddol dda o'i fesur yn erbyn y prawf carchar iach hwn, ond bod diffygion ym Mrynbuga'n golygu nad oedd yn perfformio'n ddigon da.

# Adran 2: Cynnydd ers yr adroddiad diwethaf

Mae'r cyfeirnod paragraff ar ddiwedd pob argymhelliad isod yn cyfeirio at ei leoliad yn yr adroddiad arolygu blaenorol.

## Prif argymhellion (o'r adroddiad blaenorol)

---

### 2.1 Dylid darparu cyfleuster gofal iechyd newydd ym Mrynbuga. (HP47)

**Heb ei gyflawni.** Roedd yr adran gofal iechyd yn parhau i fod y drws nesaf i'r capel ym mhen asgell B. Roedd y lle ynddi, a'i chynllun, yn annigonol, nid oedd yn addas i'r diben, ac nid oedd unrhyw gyfrinachedd i'r carcharorion. Dywedwyd wrthym y cytunwyd ar gyllid ar gyfer canolfan gofal iechyd newydd, a'r bwriad oedd dechrau'r gwaith adeiladu ym mis Medi 2008.  
**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

### 2.2 Dylid ailystyried y gwaharddiad awtomatig ar garcharorion rhag gweithio allan am fwy na chwe mis cyn eu dyddiad rhyddhau cynharaf, cyn belled â bod asesiad risg. Yn y cyfamser, dylai Prescoed sicrhau bod carcharorion sy'n bwrw dedfryd hir yn gallu defnyddio'r amser hwnnw'n adeiladol. (HP48)

**Wedi'i gyflawni.** Roedd y carchar wedi adolygu symud carcharorion i gam dau eu hailsefydliad, ac roedd bellach yn galluogi rhai carcharorion i weithio y tu allan am fwy na chwe mis cyn eu dyddiad rhyddhau cynharaf. Roedd hyn yn gweithredu'n unol â gofynion y gorchymyn Gwasanaeth Carchardai perthnasol i sicrhau nad yw carcharorion yn bwrw mwy na hanner eu dedfryd ar drefn ailsefydlu mewn cyflogaeth am dâl. Roedd rhai carcharorion, gan gynnwys rhai a oedd yn bwrw dedfryd oes, wedi gweithio y tu allan i'r carchar ers sawl blwyddyn. Tra bod carcharorion yn aros i symud i gynlluniau cam dau eu hailsefydliad, roeddent yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn cwrs paratoi ar gyfer gwaith yn yr adran addysg. Roedd hyn yn cynnig sesiynau modwlar mewn sgiliau cyflogaeth, fel cyllidebu a datblygu perthnasoedd gweithio effeithiol gyda chyflogwyr a chydweithwyr.

### 2.3 Dylid gwella gwasanaethau ar gyfer carcharorion oes ym Mhrescoed, gan ymgynghori â'r grŵp carcharorion oes. (HP49)

**Wedi'i gyflawni.** Roedd Prescoed newydd ddechrau cymryd carcharorion oes pan gynhaliwyd yr arolygiad diwethaf, ac roedd staff yn dal i ddod i arfer â'r gofynion newydd. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod carcharorion oes bellach wedi ymgartrefu, a'u bod yn symud ymlaen trwy'r drefn yn briodol (gweler paragraff 2.166). Roedd grwpiau ymgynghori'n cael eu cynnal yn rheolaidd â'r rheolwr carcharorion oes.

### 2.4 Dylai Brynbuga ddatblygu strategaeth ar gyfer delio â charcharorion hŷn, a datblygu cynlluniau iechyd a gofal amlddisgyblaeth, gan ymgynghori â gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. (HP50)

**Wedi'i gyflawni.** Roedd strategaeth gofal yr henoed wedi'i datblygu, a oedd yn disgrifio'r gofal a'r gefnogaeth barhaus a gynigir i boblogaeth carcharorion Brynbuga sy'n heneiddio. Roedd cynlluniau gofal unigol ar gyfer carcharorion hŷn a'r rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion ychwanegol wedi'u paratoi. Roedd holiaduron anableded yn cael eu cwblhau ar gyfer pob carcharor a oedd newydd gyrraedd, ac roedd yna adolygiadau ar gyfer carcharorion dros 75 oed pan oeddent yn cael eu rhyddhau. Gofal iechyd oedd yn gyrru'r strategaeth yn bennaf, ac nid oedd llawer, os unrhyw un, o'r staff nad oeddent ym maes iechyd yn gwybod amdani.

Roedd y strategaeth wedi dyddio, ac nid oedd pob agwedd arni'n cael ei chyflawni – er enghraifft, nid oedd unrhyw fforwm ar gyfer carcharorion hŷn.

### Argymhellion pellach

- 2.5 Dylid diweddarau'r strategaeth ar gyfer rheoli carcharorion hŷn ym Mrynbuga, a rhoi cyhoedduswydd iddi ymhlith yr holl staff.
- 2.6 Dylid sefydlu grŵp ymgynghori ar gyfer carcharorion hŷn, yn cynnwys nid yn unig yr adran gofal iechyd ond hefyd rheolwyr preswyl a staff addysg gorfforol (AG) a staff eraill.

### 2.7 Dylai cynlluniau ar gyfer datblygu ym Mrynbuga gynnwys astudiaeth dichonoldeb i'r posibilrwydd o ddarparu cyfleusterau i'r carcharorion fwyta y tu allan i'w celloedd cyfyng. (HP51)

**Wedi'i gyflawni.** Roedd yna gynlluniau i gyflwyno cyfleusterau i'r carcharorion fwyta y tu allan i'w celloedd. Roedd astudiaeth dichonoldeb wedi'i chynnal, a'r bwriad oedd cyflwyno cynllun peilot yn asgell D. Roedd byrddau a chadeiriau plastig wedi'u harchebu, ac roedd hysbysiadau wedi'u cyhoeddi i'r carcharorion yn egluro'r manylion. Dywedwyd wrthym, pe byddai'r cynllun yn llwyddiannus, byddai'n cael ei gyflwyno fesul cam yng ngweddill y carchar erbyn diwedd haf 2008.

## Argymhellion

---

### Llysoedd, hebryngwyr a throsglwyddiadau

---

### 2.8 Dylid cynnig egwyl cysur o leiaf bob dwy awr i garcharorion sy'n cael eu hebrwng, gyda seibiau ychwanegol pan fo angen. (1.6)

**Wedi'i gyflawni'n rhannol.** Roedd mwyafrif y carcharorion a oedd yn cael eu hebrwng yn dod o garchardai yn Ne Cymru a de-orllewin Lloegr, felly roedd siwrneiau a oedd yn cymryd mwy na dwy awr yn anghyffredin. Roedd pob un o'r carcharorion newydd a oedd yn cael eu derbyn ar y ddau safle yn ystod ein harolygiad wedi cyrraedd o CEM Caerdydd, sef siwrnai o lai nag awr. Er na wnaeth y carcharorion gwyno wrthym am ddiffyg seibiau i fynd i'r toiled yn ystod y siwrnai i Frynbuga a Phrescoed, roedd bylchau hir rhwng amseroedd cofnodi yng nghofnodion hebryngwyr carcharorion, ac nid oedd hyn yn ein sicrhau bod carcharorion ar siwrneiau hirach yn cael y nifer ofynnol o seibiau.

### Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.9 Carcharorion a oedd yn bwrw dedfryd yn unig roedd Brynbuga a Phrescoed yn eu dal, ac nid oeddent yn delio â thraffig y llysoedd. Roedd y boblogaeth carcharorion ym Mrynbuga'n sefydlog iawn, fel ydoedd yn ystod yr arolygiad diwethaf, ac roedd nifer y carcharorion newydd a oedd yn cyrraedd yn isel iawn, sef rhyw dri neu bedwar yr wythnos yn nodweddiadol. Roedd nifer y carcharorion newydd roeddent yn eu derbyn ym Mhrescoed ychydig yn uwch, gan ei fod yn dal mwy o garcharorion a oedd yn bwrw dedfryd fer, a chan bod y trosiant yn uwch. Hefyd, cafwyd cynnydd sydyn yn y niferoedd, yn bennaf mewn ymateb i bwysau poblogaeth yn gyffredinol, ond er hynny nid oedd nifer y carcharorion a oedd newydd gyrraedd yn ormodol. Ni roddwyd gwybod am unrhyw broblemau â charcharorion a oedd yn cyrraedd yn hwyr yn y nos.

## Y diwrnodau cyntaf yn y ddalfa

*Ni wnaed unrhyw argymhellion dan y pennawd hwn yn yr arolygiad diwethaf.*

---

### Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.10 Roedd y cyfleusterau derbyn ar y ddau safle'n anaddas, er bod nifer isel y carcharorion newydd yn lleddfu'r broblem. Nid oedd y dderbynfa ym Mrynbuga wedi'i newid ers yr arolygiad diwethaf, ond nid oedd carcharorion a oedd newydd gyrraedd yn treulio llawer o amser yno cyn cael eu tywys i'r unedau preswyl (hanner awr yn nodweddiadol). Roedd y sefyllfa'n debyg ym Mhrescoed, er bod yno arhosfan ar gyfer carcharorion a oedd yn mynd i leoliadau gwaith cymunedol ac yn dychwelyd ohonynt, yn ychwanegol at y brif dderbynfa ar gyfer carcharorion a oedd newydd gyrraedd. Roedd yna gynlluniau i gyfuno a gwella'r cyfleusterau derbyn hyn. Roedd y prosesau'n ddigyffro ac roedd y staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar.
- 2.11 Ym Mrynbuga, roedd pob carcharor yn cael ei leoli mewn un o bum cell ar landin A1 ar ei noson gyntaf. Roedd y gweithdrefnau'n dal i fod fwy neu lai yr un fath ag oeddent yn ystod yr arolygiad diwethaf, ac roeddent yn briodol ar gyfer yr amgylchedd. Roedd aelod o staff yn gweld carcharorion newydd ar brynawn y diwrnod roeddent yn cyrraedd, ac yn egluro gwybodaeth allweddol am y sefydliad a'r drefn o ddydd i ddydd. Roedd carcharorion yn cael gwneud galwad ffôn yn rhad ac am ddim. Roedd gwrandawyr hefyd ar gael. Ym Mhrescoed, roedd mwyafrif y carcharorion a oedd newydd gyrraedd yn cael eu lleoli yn uned Ford. Ar adeg pan fu nifer y carcharorion newydd yn is, ni ddefnyddiwyd uned Ford, a lleolwyd carcharorion a oedd newydd gyrraedd mewn unrhyw uned a oedd â lle ar eu cyfer. Roedd unrhyw oedolion ifanc yn tueddu i gael eu lleoli yn uned Bingham, er nad oedd hyn yn bolisi pendant. Yn dilyn y broses dderbyn a sgrinio iechyd, roedd uwch swyddog yn gweld y carcharorion a oedd newydd gyrraedd mewn grŵp, gan egluro'r drefn o ddydd i ddydd, ac yn ddiweddarach roeddent yn cael cyfweiliadau un-i-un ac yn cael cynnig galwadau ffôn.
- 2.12 Nid oedd y rhaglen ymsefydlu wedi newid yn sylweddol ar y naill safle na'r llall ers yr arolygiad diwethaf. Ym Mrynbuga, roedd nifer fach y carcharorion newydd a oedd yn cyrraedd yn golygu bod y rhaglen ymsefydlu'n hyblyg. Roedd staff allweddol o wahanol adrannau'n eu gweld ar eu pennau eu hunain yn ystod yr wythnos ar ôl iddynt gyrraedd. Roedd carcharorion hefyd yn cwblhau pasport carcharor a oedd yn cael ei anfon i'r adran brawf. Ym Mhrescoed, roedd yna ystafell ymsefydlu ddynodedig, ac roedd y rhaglen ymsefydlu'n un osodedig a oedd yn para wythnos, dan arweinyddiaeth swyddog preswyl â chymorth staff o adrannau eraill. Roedd aelod o'r tîm ailsefydlu'n cwblhau fersiwn electronig o'r pasport carcharor ar ddiwedd yr wythnos, ac roedd hwn yn cael ei ddefnyddio i osod targedau ac amcanion carchariad tymor byr.

### Unedau preswyl

---

- 2.13 **Dylid gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio hanfodol ar uned Ford. (2.15)**
- Wedi'i gyflawni.** Roedd pethau wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Gwnaed atgyweiriadau bach i'r uned yn gyflym, yn ôl y gofyn, ac roedd yr uned wedi'i haddurno'n dda ar y cyfan, ac roedd mewn cyflwr digon da.
- 2.14 **Dylai glanhawyr esgyll fod wedi'u hyfforddi'n briodol mewn defnyddio cyfarpar glanhau, a dylid darparu deunyddiau glanhau digonol iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau. (2.16)**
- Wedi'i gyflawni.** Roedd yr holl lanhawyr esgyll wedi'u hyfforddi mewn defnyddio cyfarpar glanhau ac mewn iechyd a hylendid sylfaenol. Roedd deunydd glanhau o fewn cyrraedd rhydd iddynt, ac roedd staff yn goruchwyllo'u gwaith yn briodol.

## 2.15 Dylid caniatáu i'r carcharorion wisgo'u dillad eu hunain heb gyfyngiadau amser. (2.17)

**Heb ei gyflawni.** Fel yn ystod yr arolygiad diwethaf, gallai carcharorion ar lefel uwch y cynllun cymhellion a breintiau haeddiannol (CBH) wisgo'u dillad eu hunain ar yr esgyll preswyl yn ystod oriau cymdeithasu min nos a thros y penwythnos. Er y caniatawyd i garcharorion yn asgell D wisgo'u dillad eu hunain ar adegau eraill yn ddiweddar, nid oedd hyn wedi'i estyn i weddill y carchar.

**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

### Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.16 Roedd Brynbuga'n darparu llety ar gyfer hyd at 250 o garcharorion mewn pedair asgell (A, B, C a D), sy'n ymledu o ardal gyffredin ganolog ym mhrif adeilad y carchar. Er bod carcharorion oes a rhai carcharorion hŷn yn asgell D yn cael cell iddynt eu hunain, roedd mwyafrif y carcharorion yn rhannu cell a oedd wedi'i chynllunio i un aros ynddi. Roedd y celloedd yn gyffredinol yn fach, ac roedd y celloedd a oedd yn cael eu rhannu'n gyfyng ac wedi'u hawyru'n wael. Roedd llawer o'r rhai ar esgyll A, B a C yn oer ac yn llaith. Er bod y toiledau yn y celloedd wedi'u sgrinio'n rhannol, nid oeddent yn darparu preifatrwydd digonol, ac roeddent yn rhy agos i'r gwelyau. Roedd y cawodydd cyffredin ym mhob uned yn lân ac roeddent yn gweithio'n iawn, ond nid oedd sgriniau digonol o'u hamgylch ac nid oeddent yn cynnig fawr o breifatrwydd.
- 2.17 Roedd yr ardaloedd cyffredin ym mhob un o'r unedau preswyl yn lân ac wedi'u cynnal a'u cadw'n ddigonol ar y cyfan. Roedd y landins yn gul, ond yn ddigon golau ac wedi'u haddurno'n ddigon da. Roedd y llinellau gweld yn dda i swyddogion oruchwylio. Er bod y lle ar gyfer oriau cymdeithasu'n gyfyngedig, roedd cyfarpar, fel byrddau pŵl a gemau eraill, yn ddigonol ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Roedd hysbysfyrdau ar bob landin yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am fynediad carcharorion at y drefn ailsefydlu, gweithgareddau a staff os oes angen help arnynt.
- 2.18 Roedd gan garchar Prescoed saith uned breswyl â llety ar gyfer hyd at 170 o garcharorion. Roedd yr amodau byw ar y cyfan yn dda. Roedd y celloedd yn lân, wedi'u dodrefnu'n ddigonol ac roedd trydan wedi'i osod ynddynt. Nid oedd unrhyw garthffosiaeth yn y celloedd, ond roedd gan bob ystafell allwedd preifatrwydd a gallai'r carcharorion fynd i'r toiledau yn y nos. Roedd y cawodydd ym mhob uned yn lân, ac roeddent yn gweithio'n iawn, ond nid oedd sgriniau preifatrwydd o'u hamgylch. Roedd pob uned wedi'i chynnal a'i chadw'n dda ac wedi'i haddurno'n ddigon da, ac roedd y tiroedd wedi'u trin yn dda. Roedd yr ardaloedd cyffredin yn lân, ac roedd yna adeilad ar wahân gyda chyfleusterau da ar gyfer oriau cymdeithasu'r carcharorion.

### Argymhellion pellach

- 2.19 Dylid sgrinio pob cawod yn ddigonol.
- 2.20 Dylid sgrinio'r toiledau'n llwyr mewn celloedd sy'n cael eu rhannu.

### Perthnasoedd rhwng y staff a'r carcharorion

---

*Ni wnaed unrhyw argymhellion dan y pennawd hwn yn yr arolygiad diwethaf.*

### Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.21 Yn ystod yr arolygiad diwethaf, roedd y perthnasoedd rhwng y staff a'r carcharorion ar y ddau safle'n ofalgar ac yn gefnogol. Gwelsom staff yn ymgysylltu'n bositif â charcharorion, ac roeddent yn gwrtais wrth eu trin o ddydd i ddydd. Roedd trafodaethau preifat yn briodol

gyfeillgar, ac roedd swyddogion yn treulio amser ar y landins yn siarad â charcharorion. Gwelsom lawer o enghreifftiau lle roedd staff yn herio ymddygiad amhriodol, ac yn helpu charcharorion i ddelio â phroblemau o ddydd i ddydd. Yn ystod oriau cymdeithasu, roedd y swyddogion yn cymysgu â'r charcharorion, ac roedd yr awrygylch ym mhob uned breswyl yn y ddau garchar yn hamddenol ond dan reolaeth.

- 2.22 Fodd bynnag, nid oedd cofnodion ysgrifenedig yn ffeiliau'r charcharorion yn adlewyrchu lefel uchel y cyswllt personol, na gwybodaeth amlwg y staff am eu charcharorion. Roedd y cofnodion yn afreolaidd ac yn fyr, gan ganolbwyntio'n gyffredinol ar ymddygiad a oedd yn gysylltiedig â digwyddiadau, ac nid oeddent yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth o'u charcharorion y gwelsom ni.

#### Argymhellion pellach

- 2.23 Dylai cofnodion staff mewn ffeiliau charcharorion adlewyrchu eu gwybodaeth am amgylchiadau personol a chyflwr charcharorion.
- 2.24 Dylai rheolwyr wirio cofnodion mewn ffeiliau charcharorion yn rheolaidd o safbwynt sicrhau ansawdd.

#### Swyddogion personol

---

- 2.25 **Dylid estyn y cynllun swyddogion personol-a-mwy i bob uned yn y ddau sefydliad. (2.41)**

**Heb ei gyflawni.** Nid oedd datblygiad y cynllun swyddogion personol-a-mwy wedi parhau. Nid oedd unrhyw bolisi ffurfiol yn disgrifio'i ddiben wedi'i gyhoeddi, ac nid oedd y staff y gwnaethom siarad â hwy yn ymwybodol o'r hyn yr oedd disgwyl iddynt ei wneud. Dywedwyd wrthym mai ei ddiben oedd estyn cyfrifoldebau arferol swyddogion personol i ddarparu cyswllt a chefnogaeth i deuluoedd charcharorion, ac ar yr un pryd, cynnig cyfle iddynt ymwneud â threfniadau rheoli dedfryd ac ailsefydlu. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod swyddogion yn cynnig cefnogaeth ffurfiol i deuluoedd charcharorion, na'u bod yn cael eu cynnwys yn rheolaidd mewn trefniadau rheoli dedfryd neu fonitro cynnydd eu charcharorion.

#### Argymhelliad pellach

- 2.26 Dylid cyhoeddi polisi'n disgrifio'r cynllun swyddogion personol-a-mwy, a rhoi cyhoeddusrwydd iddo ymhlith yr holl staff, a dylai rheolwyr sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn y ddau sefydliad drwyddynt draw.

#### Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.27 Roedd cynllun swyddogion personol ar waith, ac roedd swyddog personol wedi'i bennu ar gyfer pob charcharor. Roedd enwau swyddogion a'u charcharorion yn cael eu cadw yn y swyddfeydd staff canolog. Fodd bynnag, roedd y cynllun wedi pallu ers yr arolygiad diwethaf. Nid oedd yna unrhyw ddogfen polisi a oedd yn disgrifio'n glir dyletswyddau a chyfrifoldebau swyddogion personol, amserlen cysylltiadau â'u charcharorion neu wiriadau rheolwyr. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod swyddogion personol yn cyfrannu'n rheolaidd at drefniadau cynllunio dedfryd.
- 2.28 Dywedodd charcharorion y gwnaethom siarad â hwy mai prin oedd eu cyswllt ffurfiol â'u swyddog personol, er eu bod yn gwybod pwy ydoedd. Fodd bynnag, er iddynt ddweud nad oedd y cynllun swyddogion personol ffurfiol yn ddefnyddiol, roedd yna aelodau o staff y gallent fynd atynt pe byddai ganddynt broblem.

## Argymhelliad pellach

2.29 Dylid cyhoeddi dogfen bolisi a chyfarwyddyd ar rôl a chyfrifoldebau swyddogion personol.

### Lleihau bwlio a thrais

---

2.30 **Dylai rheolwyr ymchwilio i'r rhesymau dros ddirnadaethau negyddol rhai o'r carcharorion ynglŷn â'r staff ym Mhrescoed, a chymryd camau priodol. (3.6)**

**Heb ei gyflawni.** Ni allai unrhyw un ym Mhrescoed gofio unrhyw ymchwiliad o'r fath. Fodd bynnag, ni fynegodd unrhyw un o'r carcharorion ym Mhrescoed y gwnaethom siarad â hwy yn ystod yr arolygiad hwn ddirnadaethau negyddol cryf ynglŷn â'r staff.

### Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.31 Roedd Brynbuga a Phrescoed yn sefydliadau diogel yn y bôn. Roedd hyn yn amlwg o'r diffyg digwyddiadau a'r hyn a ddywedodd y carcharorion wrthym. Fodd bynnag, roedd trefniadau llywodraethu wedi bod yn llithro'n ôl tan ychydig cyn yr arolygiad, ac ni fu unrhyw strategaeth effeithiol ar gyfer rheoli bwlio neu ymddygiad anghymdeithasol yn y naill sefydliad na'r llall.
- 2.32 Roedd yn ymddangos o anecdotau ac o sylwadau yn llyfrau arsylwadau'r esgyll, adroddiadau gwybodaeth am ddiogeledd (SIR) a chofnodion cyfarfodydd bod unrhyw fwlio ar lefel isel ac mai pur anaml oedd hyn i'w weld ar ffurf trais. Fodd bynnag, tan yn ddiweddar iawn nid oedd unrhyw gofnodion o ddiwyddiadau bwlio, o fonitro tueddiadau nac o ymchwilio'n ffurfiol i honiadau o ymddygiad anghymdeithasol. Hefyd, nid oedd unrhyw gyswllt rhwng adroddiadau gwybodaeth am ddiogeledd, dyfarniadau ac adroddiadau ar anafiadau anesboniadwy a'r cydlynedd gwrth-fwlio. Roedd hyn yn effeithio ar gysonder yn y dull o drin y maes hwn. Er enghraifft, pan wnaeth un carcharor gŵyn ffurfiol bod carcharor arall wedi ymosod arno, cafodd ymateb ysgrifenedig yn nodi y dywedwyd wrth y carcharor arall am beidio â mynd i'w asgell ef, ac y gofynnwyd i'r staff fonitro'r sefyllfa.
- 2.33 Nid oedd yna unrhyw bwyllgor ffurfiol i gadw golwg ar yr agenda lleihau trais. Roedd materion yn ymwneud â gwrth-fwlio'n cael eu codi yn y pwyllgor carchariad mwy diogel chwarterol, er mai ar yr wyneb yn unig roeddent yn cael sylw.
- 2.34 Roedd uwch reolwyr wedi cydnabod y gwendidau hyn, ac roeddent wedi paratoi strategaeth newydd a'i rhoi ar waith yn ystod yr wythnosau cyn yr arolygiad. Roedd hon yn mynd i'r afael â mwyafrif y gwendidau y gwnaethom eu nodi, ond nid oedd eto wedi ennill ei phlwyf yn llwyr. Gwelsom enghreifftiau o hyd o fwlio honedig yn ystod yr wythnosau cyn ein harolygiad nad oeddent wedi'u hatgyfeirio'n briodol. Ni allai unrhyw un gofio'r hyfforddiant diwethaf ar gyfer staff mewn gwaith gwrth-fwlio a lleihau trais.

## Argymhellion pellach

2.35 Dylid rhoi'r strategaeth lleihau trais newydd ar waith yn llawn.

2.36 Dylai'r holl staff gael hyfforddiant mewn gwrth-fwlio a lleihau trais.



## Hunan-niweidio a hunanladdiad

---

### 2.37 Dylid monitro a hyfforddi staff nos yn well. (3.14)

**Heb ei gyflawni.** Tua 70% yn unig o'r holl staff ym Mrynbuga oedd wedi derbyn hyfforddiant mewn asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) yn ymwneud â monitro hunan-niweidio, ac ni fu unrhyw hyfforddiant staff ym Mhrescoed. Er bod y risgiau o hunan-niweidio neu hunanladdiad yn isel ym Mhrescoed, ac er nad oedd unrhyw ddigwyddiadau diweddar hysbys, roedd y diffyg hyfforddiant yn dangos hunanfodddhad. Ym Mrynbuga, roedd cofnodion gan y staff nos wedi gwella, ond roedd amseriad rhai yn dal i fod yn rhy rhagweladwy, a phrin oedd y wybodaeth ystyrion roeddent yn ei darparu.

### Argymhelliad pellach

2.38 Dylai'r holl staff ar y ddau safle sydd mewn rolau cyswllt â charcharorion dderbyn hyfforddiant mewn asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) yn ymwneud â monitro hunan-niweidio.

## Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.39 Dim ond 13 o ddogfennau ACCT oedd wedi'u hagog ym Mrynbuga yn y naw mis cyn yr arolygiad, er bod hyn yn uwch nag ydoedd yn yr arolygiad diwethaf. Ym Mhrescoed, ni allai unrhyw un o'r staff gofio'r tro diwethaf yr agorwyd dogfen.
- 2.40 Roedd y ddogfen atal hunanladdiad yn berthnasol i'r ddau safle. Er ei bod wedi'i diweddarau cwpl o fisoedd cyn yr arolygiad, roedd yn dal i gyfeirio at roi ACCT ar waith cyn bo hir, er bod hynny wedi digwydd mwy na 12 mis yn gynharach. Roedd un pwyllgor carchariad mwy diogel cyffredin yn gyfrifol am y ddau safle. Roedd hwn yn cyfarfod bob chwarter ac yn trafod pob agwedd ar garchariad mwy diogel, gan gynnwys iechyd a diogelwch, amrywiaeth a lleihau trais. Roedd hwn yn gyloch gorchwyl eang ei ystod i bwyllgor a oedd yn cyfarfod am awr bob tri mis yn unig. Oherwydd hyn o bosibl, nid oedd gan y pwyllgor hwn ffocws strategol. Roedd y sylw roedd yn ei roi i lawer o'r eitemau ar y agenda'n annigonol, ac yn aml roedd diffyg adroddiadau o feysydd allweddol.
- 2.41 Roedd yna gydlynedd carchariad mwy diogel wedi'i ddynodi ym Mrynbuga, er nad oedd unrhyw amser wedi'i neilltuo'n benodol i'r aelod o staff hwn wneud y gwaith hwn, ac nid oedd wedi gallu mynd ati i wneud unrhyw waith yn y maes, heblaw am baratoi adroddiad misol ar gyfer y tîm uwch reolwyr. Nid oedd y cydlynedd wedi gallu mynychu adolygiadau achosion, sicrhau ansawdd dogfennau ACCT oedd wedi'u cwblhau na chyflawni unrhyw elfennau eraill o'r strategaeth. Nid oedd Prescoed wedi cael unrhyw staff yn y rôl hon am o leiaf y chwe mis blaenorol. Roedd y personél wedi'u cylchdroi yn ddiweddar ar draws y ddau safle, ac nid oedd yn eglur pwy fyddai'n cyflawni'r rôl hon yn y dyfodol ym Mhrescoed.
- 2.42 Gwnaethom adolygu'r rhan fwyaf o'r dogfennau ACCT oedd wedi'u cwblhau ym Mrynbuga ar gyfer y 12 mis blaenorol. Ar y cyfan, roeddent wedi'u cwblhau'n ddigonol, er na fu cyfweiliad ar ôl eu cau mewn rhai achosion. Roedd rhai o'r cofnodion ysgrifenedig mewn dogfennau ACCT, yn enwedig rhai a wnaed yn y nos, yn rhy fecanistig a rhagweladwy, ond roedd llawer yn dangos dealltwriaeth dda o'r unigolion a'u pryderon. Yn aml, nid oedd adolygiadau achosion yn rhai amlddisgyblaeth, gyda dau aelod o staff preswyl a'r carcharor yn unig ar y bwrdd adolygu.
- 2.43 Roedd rhai o'r ffurflenni ACCT a oedd wedi'u cwblhau wedi'u hagog yn sgil argyfyngau lefel isel, pan nad oedd yn ymddangos bod y risg o hunan-niweidio wedi cynyddu o ganlyniad i'r

digwyddiad. Er mai rhesymau'n ymwneud â gofal carcharorion sy'n arwain at agor dogfen ACCT, weithiau nid dyma'r ymyrraeth fwyaf priodol, a byddai mwy o arsylwi a/neu gefnogaeth fugeiliol wedi bod yn ddigon.

- 2.44 Roedd y ddogfennaeth ACCT, yn achos rhai agweddau ar reoli carcharorion y canfyddir eu bod mewn risg o ladd eu hunain, yn dangos dull ar ôl yr oes o weithredu a oedd wedi'i seilio ar y dybiaeth mai anhwylder sy'n galw am driniaeth feddygol yw hyn. Mewn rhai achosion, roedd y carcharor wedi'i drosglwyddo i garchar arall i'w dderbyn fel claf mewnol, heb unrhyw angen clinigol amlwg. Roedd hyn weithiau'n golygu bod y carcharor yn cael ei ddychwelyd i Frynbuga ar ôl i'r sefydliad a'i dderbyniodd asesu nad oedd angen triniaeth gofal iechyd arno. Gallai'r dull hwn o weithredu effeithio ar barodrwydd carcharorion i ddod ymlaen i geisio help, ac roedd yr uwch reolwyr eisoes wedi nodi bod hyn yn fater roedd angen mynd i'r afael ag ef.

### Argymhellion pellach

- 2.45 Dylid diweddarau'r polisi atal hunanladdiad.
- 2.46 Dylid egluro rôl y cydlynnydd carchariad mwy diogel ar y ddau safle, a dylid rhoi digon o amser i gydlynwyr gyflawni'r rôl hon.
- 2.47 Dylai cylch gorchwyl y pwyllgor carchariad mwy diogel fod yn gulach, gyda ffocws mwy strategol ar agweddau allweddol ar garchariad mwy diogel.
- 2.48 Dylid bob amser cynnal cyfweiliad â charcharor ar ôl cau ei ACCT.
- 2.49 Dylai adolygiadau gofal fod yn rhai amlddisgyblaeth, yn cynnwys staff o adrannau eraill.
- 2.50 Dylai'r pwyllgor carchariad mwy diogel adolygu dogfennau ACCT sydd wedi'u cwblhau i sicrhau bod angen agor y ddogfennaeth hon.
- 2.51 Dylid rheoli carcharorion sydd mewn risg o hunan-niweidio neu ladd eu hunain ym Mrynbuga, lle bo'n bosibl.

### Amrywiaeth

- 2.52 **Ni ddylid codi ar garcharorion sydd dros oed ymddeol am eu set deledu. (2.30)**
- Wedi'i gyflawni.** Cadarnhaodd carcharorion a oedd dros oed ymddeol nad oedd y carchar yn codi arnynt am eu set deledu.
- 2.53 **Dylai carcharorion hŷn gael celloedd ar eu pennau eu hunain lle bo'n bosibl, ac ni ddylid dyrannu'r bync uchaf iddynt ar unrhyw gyfrif. (2.31)**
- Heb ei gyflawni.** Roedd yr ychydig gelloedd sengl dynodedig wedi'u neilltuo'n bennaf ar gyfer carcharorion oes. O'r herwydd, gallai'r 51 carcharor ym Mrynbuga a oedd dros 60 oed gael eu lleoli unrhyw le.
- Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**
- 2.54 **Dylid darparu cadeiriau oed-gyfeillgar, â chefn uchel, a chymhorthion eraill i garcharorion hŷn lle bo hynny'n briodol. (2.32)**
- Wedi'i gyflawni.** Roedd cadeiriau â chefn uchel wedi'u darparu i garcharorion dros 65 oed yn ddiweddar.

## Cydraddoldeb hiliol

---

- 2.55 **Dylai'r sefydliad flaenoriaethu ymdrechion i recriwtio staff mewn ffurfwisg o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig, i adlewyrchu'r boblogaeth carcharorion. (3.24)**

**Wedi'i gyflawni.** Roedd y carchar wedi cyflawni ei darged o 3% o'r staff o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig.

- 2.56 **Dylid llunio cysylltiadau â sefydliadau cymunedol i helpu i godi proffil cysylltiadau hiliol. (3.25)**

**Wedi'i gyflawni.** Roedd cysylltiadau wedi'u sefydlu'n ddiweddar â Chyngor Cydraddoldeb Hiliol (CCH) De-Ddwyrain Cymru. Nid oedd y perthnasoedd rhwng y carchar a'r CCH wedi'u sefydlu'n llawn eto, ond roedd y swyddog cydraddoldeb hiliol (SCH) yn mynychu ei gyfarfodydd chwarterol, ac roedd cynlluniau i gynrychiolwyr y CCH fynychu cyfarfod tîm gweithredu cydraddoldeb hiliol (TGCH) y carchar.

### Argymhelliad pellach

- 2.57 Dylid datblygu cysylltiadau â sefydliadau cydraddoldeb hiliol cymunedol ymhellach.

- 2.58 **Dylai'r ddau safle gynyddu lefel cynrychiolaeth carcharorion i o leiaf dau garcharor fesul safle, i sicrhau bod safbwyntiau'r gwahanol boblogaethau carcharorion yn cael eu cynrychioli. (3.26)**

**Wedi'i gyflawni.** Roedd dau gynrychiolydd carcharorion o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig wedi'u penodi ar y ddau safle. Roedd eu rôl wedi'i chyhoeddi, ac roeddent yn derbyn cefnogaeth gref o ddydd i ddydd gan y SCH. Roeddent yn mynychu cyfarfodydd y TGCH bob deufis, ac yn gweld carcharorion a oedd newydd gyrraedd yn ystod eu rhaglen ymsefydlu.

- 2.59 **Dylid sefydlu fforwm amrywiaeth i alluogi carcharorion o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig i drafod materion mewn amgylchedd diogel. Gellid defnyddio'r fforwm hwn i archwilio ymhellach rhai o ddirnadaethau negyddol carcharorion o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig. (3.27)**

**Wedi'i gyflawni.** Roedd yna gyfarfodydd bob mis rhwng carcharorion o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig a'u cynrychiolwyr ar y ddau safle. Roedd cofnodion y cyfarfodydd a oedd wedi'u cyhoeddi'n dangos trafodaeth agored ar faterion perthnasol. Roedd materion a oedd yn codi o gyfarfodydd yn cael eu cyflwyno i'r TGCH i'w trafod ymhellach, neu i weithredu arnynt. Roedd carcharorion yn cael gwybod yn y cyfarfod nesaf am y camau a gymerwyd.

- 2.60 **Dylid rhoi gwybod i garcharorion yn ysgrifenedig am ddeilliannau ymchwiliadau i ddigwyddiadau hiliol. (3.28)**

**Wedi'i gyflawni.** Roedd carcharorion yn cael gwybod yn ysgrifenedig am ddeilliannau ymchwiliadau i ddigwyddiadau hiliol honedig (gweler isod).

## Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.61 Roedd pethau wedi gwella yn y maes hwn ers yr arolygiad diwethaf. Roedd un polisi cydraddoldeb hiliol a oedd yn berthnasol i'r ddau garchar wedi'u cyhoeddi. Roedd yn gynhwysfawr ac yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r holl staff, yn enwedig rheolwyr, o ran hybu cydraddoldeb hiliol, ac yn rhoi diffiniadau o ragfarn a gwahaniaethu. Rhoddyd blaenoriaeth uchel i'w hybu, a daethom o hyd i gopiau ym mhob ardal gyffredin, gan gynnwys yr unedau preswyl a'r ystafelloedd ymweld.
- 2.62 Roedd TGCH â chyfansoddiad priodol, a oedd yn cyfarfod bob deufis dan gadeiryddiaeth y llywodraethwr, yn monitro ac yn rheoli rhoi'r polisi ar waith. Roedd aelodaeth y tîm yn cynrychioli pob maes yn y ddau garchar, ac yn cynnwys yr holl uwch reolwyr, staff preswyl, carcharorion a'r gaplaniaeth.
- 2.63 Roedd yna systemau i asesu effaith polisiâu ac arferion lleol ar garcharorion o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig, a bu asesiadau ffurfiol o feysydd pwysig, fel gweithdrefnau disgyblu, cwynion, gwahaniad a mynediad at weithgareddau. Roedd meysydd yr oedd gofyn rhoi sylw iddynt yn cael eu dynodi, ac roeddent yn cael eu hychwanegu at gynllun cydraddoldeb hiliol cyffredin yr oedd y TGCH yn ei fonitro.
- 2.64 Roedd yna systemau effeithiol ar gyfer adrodd ar ddigwyddiadau hiliol a delio â hwy. Roedd ffurflenni adrodd ar ddigwyddiadau hiliol ar gael mewn ardaloedd dynodedig ym mhob uned breswyl, ac roedd yna flychau dan glo ym mhob asgell lle gallai carcharorion bostio'u ffurflenni wedi'u cwblhau yn gyfrinachol. Roedd nifer y ffurflenni adrodd ar ddigwyddiadau hiliol oddi wrth garcharorion yn isel, sef tair rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2008. Roedd y SCH hyfforddedig yn ymchwilio i bob digwyddiad y rhoddir gwybod amdano, ac roedd adroddiadau dilynol yn cael eu cyflwyno i'r llywodraethwr i'w cymeradwyo. Roedd atebion yn ddi-oed ac yn llawn parch. Roedd achwynwyr yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd mewn achosion cymhleth lle disgwylir cymryd mwy na phytnefnos i'w datrys. Roedd y camau a gymerir i ddatrys materion yn gynhwysol ac yn cynnwys ymgynghori â'r achwynwr. Roedd cynlluniau cefnogi dioddefwyr yn cael eu defnyddio i helpu carcharorion i ddelio â phroblemau yn sgil hyn.
- 2.65 Er gwaethaf y systemau rheoli da hyn, a'r flaenoriaeth eglur i gefnogi cydraddoldeb hiliol, roedd nifer y carcharorion o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig yn isel ac nid oeddent yn adlewyrchu cyfran y carcharorion hyn yn y prif sefydliadau sy'n anfon carcharorion yma (Parc, Abertawe a Chaerdydd). Adeg yr arolygiad, 11 o garcharorion o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig yn unig oedd ym Mhrescoed, a oedd yn cynrychioli 7% o'r boblogaeth carcharorion. Cyfyngedig oedd dealltwriaeth rheolwyr y carchar o'r rhesymau posibl am hyn, a phrin oedd y dystiolaeth fod y sefyllfa wedi'i harchwilio'n briodol.

### Argymhelliad pellach

- 2.66 Dylai'r carchar asesu'r rheswm pam mai nifer fach yn unig o garcharorion sy'n cyrraedd Prescoed o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig.

## Carcharorion sy'n wladolion tramor

---

- 2.67 **Dylid rhoi'r polisi gwladolion tramor ar waith cyn gynted â phosibl. (3.35)**

**Heb ei gyflawni.** Roedd y dogfennau polisi/strategaeth gwladolion tramor a oedd wedi'u cyhoeddi'n manylu ar brotocolau, gweithdrefnau a hawliau ar gyfer carcharorion sy'n wladolion tramor, ac yn rhoi sylw i broblemau'n ymwneud â chyswllt â'r teulu, mewnfudiad ac iaith, ond

nid oedd y mwyafrif o'i brotocolau wedi'u rhoi ar waith, ac nid oedd trefniadau rheoli wedi'u datblygu. Nid oedd staff unedau preswyl yn ymwybodol o gynnwys y ddogfen, ac ni ddaethom o hyd iddi yn unrhyw un o'r unedau.

**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

**2.68 Dylid sefydlu pwyllgor gwladolion tramor i roi cyfle i garcharorion sy'n wladolion tramor godi materion cyffredin. (3.36)**

**Heb ei gyflawni.** Nid oedd yna unrhyw bwyllgor gwladolion tramor i garcharorion tramor allu codi pryderon neu fynegi eu barn ynglŷn â'u triniaeth.

**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

**2.69 Dylai materion carcharorion sy'n wladolion tramor fod yn eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd y tîm rheoli cysylltiadau hiliol (TRhCH). (3.37)**

**Wedi'i gyflawni'n rhannol.** Er bod materion carcharorion sy'n wladolion tramor yn eitem sefydlog ar agenda'r TGCH, nid oedd cofnodion cyfarfodydd yn rhoi sicrwydd bod anghenion carcharorion sy'n wladolion tramor yn cael eu cynrychioli'n ddigonol neu fod deilliannau'n cael eu monitro, na bod y polisi'n cael ei roi ar waith yn briodol (gweler isod hefyd).

#### **Argymhelliad pellach**

**2.70** Dylai'r cydlynnydd gwladolion tramor fynychu cyfarfodydd y tîm gweithredu cydraddoldeb hiliol (TGCH) ac adrodd ar faterion sy'n ymwneud yn benodol â charcharorion sy'n wladolion tramor.

**2.71 Dylai Brynbuga a Phrescoed sefydlu cysylltiadau â'r Gwasanaeth Mewnfudo. (3.38)**

**Wedi'i gyflawni'n rhannol.** Roedd y SCH wedi sefydlu cyswllt cychwynnol â'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo (Asiantaeth Ffiniau'r DU bellach) yng Nghaerdydd, â'r bwriad o gael yr asiantaeth i ymweld â'r carchardai'n rheolaidd i weld carcharorion sy'n wladolion tramor.

#### **Argymhelliad pellach**

**2.72** Dylid datblygu cysylltiadau ag Asiantaeth Ffiniau'r DU ymhellach, a chynnwys trefniadau ffurfiol ar gyfer ymweliadau a chymorthfeydd ar gyfer carcharorion sy'n wladolion tramor.

### **Gwybodaeth ychwanegol**

**2.73** Roedd cydlynnydd gwladolion tramor wedi'i benodi ym mis Chwefror 2008. Adeg yr arolygiad, nid oedd eto'n gwbl gyfarwydd ag anghenion y carcharorion sy'n wladolion tramor, ac nid oedd y tîm uwch reolwyr yn ei chefnogi'n llawn trwy drefniadau ffurfiol. Nid oedd unrhyw amser ffurfiol wedi'i ddyrannu'n benodol iddi gyflawni ei dyletswyddau. Roedd ei rôl wedi'i hysbysebu'n wael, heb fanylion cyswllt, ac nid oedd y staff na'r carcharorion yn ei deall. Dywedodd y carcharorion wrthym nad oeddent yn ymwybodol o sut i gael help arbenigwr â'u sefyllfa pe byddai angen. Nid oedd yna bwyllgor amlddisgyblaeth i gynrychioli anghenion carcharorion, ac nid oedd cynrychiolwyr carcharorion sy'n wladolion tramor wedi'u penodi.

**2.74** Prin oedd y wybodaeth oedd wedi'i chyfieithu i ieithoedd tramor, ac er bod gwasanaeth lladmeru dros y ffôn ar gael, nid oedd y staff ar y cyfan yn ymwybodol o sut i'w ddefnyddio. Nid oedd polisiâu a rheolau lleol wedi'u cyfieithu, nid oedd unrhyw gofnodion o staff a allai siarad ieithoedd tramor, ac roedd yna ddiffyg deunydd darllen mewn ieithoedd tramor yn y llyfrgell.

### Argymhellion pellach

- 2.75 Dylid dyrannu digon o amser i'r cydlynnydd gwladolion tramor allu cyflawni'r dyletswyddau hyn.
- 2.76 Dylid hysbysebu rôl y cydlynnydd gwladolion tramor yn eang, a chynnwys manylion cyswllt.
- 2.77 Dylid bod â phwyllgor gwladolion tramor amlddisgyblaeth i sicrhau bod y polisi gwladolion tramor yn cael ei roi ar waith yn llawn, ac i gefnogi'r cydlynnydd gwladolion tramor.
- 2.78 Dylai gwybodaeth am bolisiau a gweithdrefnau lleol fod ar gael i garcharorion sy'n wladolion tramor mewn ieithoedd perthnasol.
- 2.79 Dylid hysbysebu cyfleusterau lladmeru'n well.

### Ceisiadau a chwynion

---

#### 2.80 Dylid cofnodi pob cais a dadansoddi amseroldeb ac ansawdd atebion. (3.61)

**Wedi'i gyflawni'n rhannol.** Ym Mrynbuga, roedd yr holl geisiadau'n cael eu cofnodi, fel yr oeddent adeg yr arolygiad diwethaf, ac yn cael eu hanfon i'r adran briodol. Er bod system wedi'i chyflwyno i gofnodi ymatebion unwaith roeddent wedi dod i law, nid oedd hon yn cael ei defnyddio, a phedwar ymateb yn unig oedd wedi'u cofnodi ers dechrau 2008. Gwnaeth rhai o'r carcharorion gwyno ynglŷn â'r amser roedd yn ei gymryd i gael ymatebion, er iddynt ddweud bod y staff ar y cyfan yn barod i fynd ar eu trywydd. Nid oedd unrhyw system i fonitro neu asesu amseroldeb ymatebion i geisiadau, ac nid oedd unrhyw wiriadau ansawdd. Nid oedd gan garchar Prescoed system fonitro hyd yn oed i gofnodi ceisiadau.

**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

#### 2.81 Dylid dadansoddi cwynion ym Mhrescoed. (3.62)

**Wedi'i gyflawni'n rhannol.** Roedd nifer y cwynion ym Mrynbuga ac ym Mhrescoed yn isel. Yn 2007, roedd 225 wedi'u cyflwyno ym Mrynbuga, a oedd wedi gweld cynnydd cyson o 182 yn 2006 a 99 yn 2005. Cafwyd 66 o gwynion ym Mhrescoed, o'i gymharu â 95 yn 2006. Ym Mrynbuga, roedd cwynion yn cael eu dadansoddi bob mis, gan gynnwys edrych ar amseroldeb ymatebion a'r cynnwys. Fodd bynnag, nid oedd yna system i werthuso ansawdd ymatebion. Roedd y templed dadansoddi wedi'i gyflwyno ym Mhrescoed ym mis Mai 2007, ond dwywaith yn unig oedd wedi'i ddefnyddio. Er bod dadansoddiad o wybodaeth, gan gynnwys patrymau cwynion ac amseroldeb ymatebion, yn cael ei gyfleu i'r tîm uwch reolwyr, nid oedd unrhyw fodd o werthuso patrymau cwynion dros amser, nac unrhyw systemau rheoli ansawdd.

### Argymhellion pellach

- 2.82 Dylid cyflwyno system ffurfiol ar gyfer dadansoddi cwynion ym Mhrescoed.
- 2.83 Dylid cyflwyno system rheoli ansawdd y weithdrefn gwyno ym Mrynbuga ac ym Mhrescoed.

## Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.84 Roedd y system ar gyfer dadansoddi cwynion ym Mrynbuga'n cynnwys adran i gofnodi cwynion lle roedd carcharorion yn nodi bwlio neu elfennau hiliol. Ym mis Ionawr a mis Chwefror 2008, nid oedd tair cwyn lle roedd y carcharor wedi nodi bwlio wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad o gwynion. Er ein bod yn fodlon y bu ymchwiliad priodol i'r rhain, nid oeddent wedi'u hanfon at y cydlynedd carchariad mwy diogel.
- 2.85 Gwnaethom edrych ar nifer o gwynion a oedd wedi'u cyflwyno'n ddiweddar ym Mrynbuga ac ym Mhrescoed. Roedd yr ymatebion yn ateb yr ymholiadau a godwyd yn briodol, ac roeddent yn glir ac yn llawn parch ar y cyfan. Fodd bynnag, os oedd gofyn i rywun arall gyfrannu at ymateb, er enghraifft sefydliad blaenorol, nid oedd unrhyw fecanwaith i reoli neu gofnodi'r ymatebion dilynol, a allai fod wedi cymryd mwy o amser na'r amserlenni targed.

### Argymhelliad pellach

- 2.86 Os oes gofyn am ymateb pellach neu ohiriedig wrth ymateb i gŵyn, a hynny'n golygu mynd y tu hwnt i'r amserlen darged, dylid cofnodi hyn a'i reoli fel bod y carcharor yn cael gwybod am yr amserlen â'r targedau wedi'u nodi'n glir arni.

## Hawliau cyfreithiol

---

*Ni wnaed unrhyw argymhellion dan y pennawd hwn yn yr arolygiad diwethaf.*

## Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.87 Roedd dau swyddog hyfforddedig ym Mrynbuga ac un ym Mhrescoed yn darparu gwasanaethau cyfreithiol. O ystyried y boblogaeth yn y ddau garchar, roedd y galw am wasanaethau'n isel. Er hynny, roedd ystod resymol o gefnogaeth ar gael, gan gynnwys y gallu i ymgynghori ag ymarferwyr cyfreithiol lleol.
- 2.88 Roedd gan y llyfrgell ystod dda o lyfrau cyfreithiol i gyfeirio atynt ac i'w benthycu, yn ogystal â gorchmynion y Gwasanaeth Carchardai, polisïau mewnol ac ystod eang o daflenni'n darparu gwybodaeth a chyngor ar agweddau amrywiol ar weithrediadau cyfreithiol.

## Defnyddio sylweddau

---

- 2.89 **Dylid gwahanu ffigyrau'r ddau garchar yn achos y targed perfformiad allweddol ar gyfer profion cyffuriau gorfodol, a'r rhestr a lunnir ar gyfer profion. (8.73)**

**Wedi'i gyflawni.** Roedd ffigyrau profion cyffuriau gorfodol y ddau garchar bellach wedi'u gwahanu.

## Gwasanaethau iechyd

---

- 2.90 **Dylid darparu cyfleusterau gofal iechyd newydd, a dylent gynnwys ystafelloedd sy'n benodol ar gyfer triniaeth, a meddygfa. (4.59)**

**Heb ei gyflawni.** Nid oedd y cyfleusterau gofal iechyd ym Mrynbuga wedi newid ers yr arolygiad diwethaf. Roedd swyddfa weinyddu gofal iechyd yn cael ei defnyddio'n anaddas fel ystafell driniaeth ac ar gyfer rhoi meddyginiaeth. Nid oedd yna unrhyw ystafell a oedd yn benodol ar gyfer

triniaeth, ac roedd meddyginiaethau'n cael eu rhoi trwy ddrws stabil a oedd yn golygu nad oedd unrhyw gyfrinachedd i'r carcharorion. Roedd y feddygfa hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer rhwymo anafiadau, chwistrellu clustiau a chlinigau amrywiol. Roedd yn rhaid mynd trwy'r capel i weld y meddyg, yn aml ar adegau pan oedd yn cael ei ddefnyddio, a gall hyn effeithio ymhellach ar gyfrinachedd. Roedd hefyd yn bell o weddill yr adran gofal iechyd ac yn gadael nyrsys ar eu pennau eu hunain mewn sefyllfa a allai olygu eu bod yn agored i niwed. Roedd y ceiropodydd a'r optegydd hefyd yn defnyddio'r ystafell ddeintyddol. Roedd y nyrs mewngymorth yn cynnal ymgynghoriadau iechyd meddwl ac asesiad risg yn yr ystafell hon, nad oedd yn addas i'r diben hwn. Y bwriad oedd dechrau gwaith ar ganolfan gofal iechyd newydd ym mis Medi 2008.  
**(Gweler argymhelliad 2.1.)**

**2.91 Dylid gwirio cyfarpar achosion brys ar ôl eu defnyddio, a phob wythnos o leiaf. (4.60)**

**Wedi'i gyflawni.** Roedd dau fag achosion brys wedi'u prynu ym mis Rhagfyr 2007, un ar gyfer pob safle. Roedd yna gofrestr, a oedd yn cael ei llofnodi bob wythnos, ond nid oedd yna restr o'r cynnwys na dyddiadau darhod meddyginiaethau. Cywirwyd hyn yn ystod ein harolygiad.

**2.92 Dylid gosod cyfarpar TG sy'n cydweddu â gofal sylfaenol, a dylai hyn gynnwys meddalwedd ar gyfer rheoli clefydau cronig a rheoli meddyginiaethau. (4.61)**

**Heb ei gyflawni.** System bapur oedd yn cael ei defnyddio ar gyfer yr holl gofnodion clinigol a siartiau rhagnodi a rhoi meddyginiaethau. Nid oedd yna unrhyw feddalwedd ar gyfer rheoli cyflyrau gydol oes. Roedd dwy system TG yn cael eu trafod, ond nid oedd yr un wedi'i phrynu eto.  
**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

**2.93 Dylid sefydlu pwyllgor meddyginiaethau a therapiwteg, gyda chynrychiolaeth briodol o'r ddau garchar. (4.62)**

**Heb ei gyflawni.** Nid oedd pwyllgor meddyginiaethau a therapiwteg wedi'i sefydlu. Nid oedd unrhyw gyfarfodydd ffurfiol rhwng y ddau garchar, y fferyllfa a oedd yn darparu meddyginiaethau a'r bwrdd iechyd lleol (BILI).

**2.94 Dylai'r pwyllgor meddyginiaethau a therapiwteg adolygu'r holl weithdrefnau a pholisïau fferylliaeth yn ffurfiol ac yn rheolaidd. (4.63)**

**Heb ei gyflawni.** Nid oedd yna unrhyw bwyllgor meddyginiaethau a therapiwteg i adolygu gweithdrefnau, polisïau ac archwiliadau'n ymwneud â rhagnodi meddyginiaethau a fferylliaeth, ar sail tystiolaeth.

**Argymhelliad pellach**

**2.95 Dylid sefydlu pwyllgor meddyginiaethau a therapiwteg, gyda chynrychiolaeth briodol o'r ddau garchar. Dylai hwn adolygu'r holl weithdrefnau a pholisïau fferylliaeth yn rheolaidd.**

**2.96 Dylid ystyried defnyddio staff gofal iechyd presennol fel rhagnodwyr atodol (cyn belled â'u bod yn cael eu hyfforddi'n briodol), a chyflwyno cyfarwyddiadau grwpiau cleifion. (4.64)**

**Heb ei gyflawni.** Nid oedd nyrsys wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol, ac nid oedd unrhyw nyrsys-ragnodwyr mewn swydd.  
**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**



**2.97 Dylid sefydlu goruchwyliaeth glinigol yn ffurfiol. (4.65)**

**Wedi'i gyflawni.** Roedd goruchwyliaeth glinigol ar waith ac yn mynd rhagddi bob blwyddyn yn BILL Sir Fynwy, neu'n amlach ar gais. Roedd sawl nyrs hefyd wedi cwblhau cwrs goruchwyliaeth glinigol yn y BILL, ac roeddent yn fentoriaid i nyrsys dan hyfforddiant oedd yn cael eu lleoli yn y carchar am gyfnodau o fis.

**2.98 Dylid darparu sesiynau deintyddol ychwanegol i leihau'r rhestr aros. (4.66)**

**Wedi'i gyflawni.** Roedd deintydd, a oedd â'i bractis deintyddol yn y Fenni gerllaw, yn dod i Frynbuga un bore'r wythnos. Roedd yn gweld 12 carcharor yn ystod pob sesiwn. Pedair wythnos oedd yr amser aros ar gyfer apwyntiad nad yw'n un brys. Roedd carcharorion o Brescoed yn gwneud eu trefniadau eu hunain gyda'r practis deintyddol yn nhref Brynbuga.

**2.99 Dylid datblygu'r drefn hybu iechyd ymhellach. (4.67)**

**Wedi'i gyflawni.** Roedd posteri hybu iechyd wedi'u harddangos yn dda o amgylch y carchar. Roedd clinig dynion iach wedi'i sefydlu ym mis Hydref 2007, ac roedd hwn yn mesur paramedrau iechyd amrywiol, fel pwysedd gwaed, cyfraddau llif brig, dadansoddi wrin a phwysau, ac yn rhoi cyngor i'r carcharorion ar archwilio'u ceilliau eu hunain. Roedd y BILL yn darparu taflenni hybu iechyd, ac roedd y rhain wedi'u harddangos yn glir yn yr ardal aros gofal iechyd. Roedd fforwm gofal iechyd misol wedi'i sefydlu ym mis Hydref 2007, ac roedd hwn yn cael ei redeg gan y rheolwr gofal iechyd, a oedd yn nyrs.

**2.100 Dylid ceisio arbenigedd therapydd galwedigaethol i gynghori ar ofal pobl hŷn. (4.68)**

**Wedi'i gyflawni.** Roedd nyrs wedi cael hyfforddiant ychwanegol i ofalu am anghenion carcharorion hŷn. Roedd yna holiadur sgrinio iechyd ychwanegol a oedd yn cael ei gwblhau yn achos pob carcharor dros 60 oed. Roedd gan yr adran addysg gorfforol gysylltiadau da hefyd â gofal iechyd, er mwyn darparu sesiynau adferol yn y gampfa a oedd wedi'u cynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion carcharorion hŷn. Os oedd angen cymorth pellach, roedd y meddyg teulu'n atgyfeirio carcharorion at adran iechyd galwedigaethol yr ysbyty lleol.

## **Gwybodaeth ychwanegol**

---

2.101 Roedd yna gytundeb lefel gwasanaeth â fferyllydd preifat yn y Fenni i ddarparu gwasanaeth fferyllol i garchardai Brynbuga a Phrescoed, ond roedd angen diweddar hwn i ddarparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr i'r carcharorion. Nid oedd fferyllfa'n darparu gwasanaethau ar y safleoedd eu hunain. Roedd yr holl feddyginiaethau ar y ddau safle ym meddiant y carcharorion oedd yn eu cymryd, ac roedd y mwyafrif yn cael eu cyflenwi'n fisol. Roedd yna ddau gwpwrdd o feddyginiaethau stoc, ac roedd nyrs gynorthwyol yn gwirio'r rhain. Nid oedd unrhyw archwiliad o symiau meddyginiaethau mewn stoc nac o'u dyddiadau darfod.

2.102 Roedd pob carcharor yn destun asesiad iechyd meddwl pan roedd yn cael ei dderbyn i'r carchar, er mwyn nodi anghenion iechyd meddwl cyn gynted â phosibl. Roedd unrhyw garcharor a oedd â phroblem iechyd meddwl yn cael ei atgyfeirio at y tîm mewngymorth. Roedd rhaglen ofal yn cael ei defnyddio yn achos y carcharorion hynny â salwch meddwl difrifol a pharhaus.

## Argymhelliad pellach

- 2.103 Dylai pob carcharor gael gwasanaeth fferyllol sy'n gyfartal â'r gwasanaeth yn y gymuned, gan gynnwys y gallu i fynd yn syth at staff fferyllol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol am gyngor, a chael gwybodaeth am fuddion a risgiau meddyginiaeth.

## Gweithgareddau dysgu a sgiliau a gwaith

- 2.104 **Dylid ehangu ystod y cyfleoedd i gael achrediad i garcharorion sy'n gweithio fel cynorthwyr yn y llyfrgell. (5.11)**

**Wedi'i gyflawni.** Gallai carcharorion a oedd yn gweithio fel cynorthwyr yn y llyfrgelloedd ym Mrynbuga ac ym Mhrescoed weithio tuag at gymhwyster galwedigaethol cenedlaethol (CGC) lefel dau, a chymwysterau Rhwydwaith y Coleg Agored (RhyCA) mewn gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth, er mai un CGC ac un cymhwyster RhyCA yn unig sydd wedi'u hennill hyd yma. Roedd y llyfrgelloedd yn cael eu rheoli gan wasanaeth llyfrgell Sir Fynwy, ac roedd llyfrgellydd amser llawn yn eu goruchwylio. Roedd y cymwysterau'n cael eu darparu trwy'r gwasanaeth llyfrgell, ac roedd y llyfrgellydd yn gymwysedig i asesu dysgwyr hyd at CGC lefel dau. Galw isel oedd yn bennaf gyfrifol am nifer isel y carcharorion a oedd yn ennill achrediad, ynghyd â'r amser roedd yn ei gymryd i ennill achrediad, gan bod y 18 mis sydd eu hangen yn rhwystr i'r carcharorion ym Mhrescoed a oedd yn bwrw dedfryd fyrrach. Roedd y llyfrgellydd yn cadw cofnodion o'r sgiliau cyffredinol roedd y cynorthwyr yn eu hennill, er nad oedd y rhain yn arwain at achrediad. Roedd hefyd disgwyl i'r carcharorion a oedd yn gweithio fel cynorthwyr yn y llyfrgelloedd ddilyn rhaglen addysg ran-amser a dysgu agored, ac roedd un cynorthwydd yn fyfyrwr Prifysgol Agored.

- 2.105 **Dylid darparu cyfleusterau TG a datblygu defnydd priodol o fynediad i'r rhyngwyd. (5.12)**

**Heb ei gyflawni.** Fe wrthododd y sefydliad yr argymhelliad hwn oherwydd pryderon ynghylch amddiffyn y cyhoedd. Roedd hyn yn fater pryder penodol ym Mrynbuga, lle roedd troseddau mwyafrif y carcharorion yn rhai rhywiol, ond roedd hefyd yn berthnasol i raddau ym Mhrescoed.

- 2.106 **Dylid darparu mwy o leoedd astudio preifat yn y llyfrgelloedd, yn enwedig ym Mhrescoed. (5.13)**

**Wedi'i gyflawni.** Roedd yna bellach ganolfan dysgu agored ag adnoddau helaeth mewn ystafell gyferbyn â'r llyfrgell ym Mhrescoed. Roedd y cyfleuster ar agor dri diwrnod yr wythnos rhwng 8.30am a 11.30am, er bod posibilrwydd o ymestyn hyn i'w ddefnyddio ar gyfer astudiaeth breifat. Roedd y ddwy lyfrgell, ym Mrynbuga a Phrescoed, yn hygyrch iawn, ac roeddent ar agor bob bore a phrynhawn, ar fin nos a thros y penwythnos.

## Argymhelliad pellach

- 2.107 Dylid ymestyn oriau agor cyfleuster dysgu agored Prescoed.

- 2.108 **Dylid nodi a chyflwyno meysydd pellach lle gall carcharorion ennill cymwysterau galwedigaethol. (5.21)**

**Wedi'i gyflawni'n rhannol.** Roedd yna gyfle parhaus i ennill cymwysterau galwedigaethol ym Mrynbuga ac ym Mhrescoed, er na fu cynnydd mawr yn hyn o beth ers ein hymweliad diwethaf.

Roedd y ddarpariaeth ym Mrynbuga'n cynnwys ennill CGC a chymwysterau City and Guilds a RhyCA mewn sgiliau adeiladu amrywiol, technoleg gwybodaeth, torri gwallt a pharatoi bwyd, yn ogystal â gweithdy aml-sgiliau a oedd yn darparu cyfleoedd dysgu achrededig mewn sgiliau ymarferol a dylunio â chymorth cyfrifiadur. Roedd hyfforddiant galwedigaethol mewn gweithdai'n darparu cyfleoedd i hyd at 69 o garcharorion. Roedd gan y carchar gynlluniau i ddatblygu dysgu achrededig ymhellach yn y golchdy, mewn gweithdy elusen newydd ac ymhlith glanhawyr ar yr esgyll, lle roedd staff a charcharor wedi'u hyfforddi i fod yn aseswyr. Roedd lefelau cyfranogi o hyfforddiant galwedigaethol, cyfraddau cadw a chyfraddau cyflawni'n dda ar y cyfan. Ym Mhrescoed, roedd y ddarpariaeth yn cynnwys paentio ac addurno (er bod cyrsiau glanhau achrededig Sefydliad Gwyddorau Glanhau Prydain yn disodli hwn), dylunio a thechnoleg (gan gynnwys gwaith dylunio â chymorth cyfrifiadur ansawdd uchel) a thorri gwallt. Roedd hyfforddiant galwedigaethol hefyd ar gael ar fferm y carchar, lle roedd yr holl staff wedi'u hyfforddi fel hyfforddwyr/arholwyr ar gyfer tystysgrifau profion medruswydd cenedlaethol mewn defnyddio wagenni fforch godi a pheiriannau amaethyddol. Roedd hyn yn ychwanegol at achrediad Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Trafnidiaeth Ffordd a oedd eisoes ar gael. Fodd bynnag, nid oedd llawer o garcharorion wedi ennill cyflawniadau ar y fferm.

**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

## **Gwybodaeth ychwanegol**

---

- 2.109 Roedd y modd o gyflenwi addysg yn parhau i gael ei reoli'n dda. Roedd pennaeth dysgu a sgiliau, wedi'i leoli ym Mrynbuga, bellach yn cydlynu cyflenwi gwasanaeth ym mhob un o garchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Er hynny, roedd yn parhau i fod â dealltwriaeth fanwl o'r ddarpariaeth leol, ac roedd rheolwr dysgu a sgiliau'n ei gefnogi. Dan drefniadau sy'n benodol i Gymru, roedd y Gwasanaeth Carchardai'n cyflogi'r 28 o aelodau staff dysgu a sgiliau amser llawn a rhan-amser mewn gwasanaeth a oedd yn cael ei reoli'n uniongyrchol. Roedd y carchar yn parhau i weithio'n unol â'r cynllun datblygu tair blynedd y cyfeiriwyd ato yn ystod ein harolygiad diwethaf. Er ei bod yn bryd adnewyddu hwn yn 2008, manylwyd ymhellach ar drefniadau gwasanaeth a rheolaeth mewn cytundeb cyflenwi gwasanaeth dysgu a sgiliau a oedd yn cael ei sefydlu rhwng pob un o garchardai Cymru a'r rheolwr gweithredol dros Gymru.
- 2.110 Roedd yr adran addysg yn fach ac yn gyfyng, ond roedd y cyfarpar yn dda mewn rhai ystafelloedd dosbarth. Roedd yn ymddangos bod yr amgylchedd dysgu'n bositif: roedd yr adran yn fywiog; roedd yr ystafelloedd dosbarth yn llawn ar y cyfan; ac roedd yn ymddangos bod myfyrwyr wedi ymgysylltu. Roedd yn anodd cael gafael ar ffigyrau ar gyfer lefelau cyfredol y carcharorion oedd yn ymgysylltu â dysgu, ond y gred oedd eu bod yn debyg yn fras i'r hyn oeddent yn ystod yr arolygiad diwethaf, gyda 49 o leoedd addysg amser llawn crybwylliedig ym Mrynbuga, a hyd at 14 ym Mhrescoed. Roedd gan y carchar gwricwlwm eang a dull amrywiol o drin dysgu, gan gynnwys cyfleoedd dysgu agored, dosbarthiadau nos pedair noson yr wythnos ym Mrynbuga, rhai dosbarthiadau nos mewn TG ym Mhrescoed, a dau diwtor a oedd yn cynnig cyfleoedd wedi'u hymgorffori mewn gweithleoedd i ddysgu sgiliau sylfaenol.
- 2.111 Dim ond digon o le sydd ym Mrynbuga ar gyfer gweithgareddau i nifer y carcharorion a ddelir, ond mae gweithdy ailgylchu'n cael ei gynllunio. Fodd bynnag, gwelwyd ychydig o ehngiad mewn gweithgareddau ac ychydig o dystiolaeth o brinder gwaith. Er enghraifft, roedd y gwaith yn y 'garfan fenter' yn ddiraddiol ac roedd y garfan golchdy o 20 yn rhy fawr ar gyfer y carchar. Roedd pedwar swyddog llyfrgell mewn llyfrgell eithaf bychan ac roedd y nifer o lanhawyr cyffredinol wedi dyblu i 22.
- 2.112 Roedd Prescoed wedi bod yn gweithredu ar gofrestr llawer is am gyfnod helaeth o 2007, a dim ond yn ddiweddar yr oedd wedi dechrau llenwi eto gyda phwysau'r boblogaeth ehngach. Ers ein harolygiad diwethaf, mae lleoedd gweithgareddau wedi'u rhesymoli a gweithdai wedi cau. Roedd y carchar yn profi pwysau tymor-byr arwyddocaol i ddarparu gweithgareddau defnyddiol

ac, er ei fod yn cynnig oddeutu 100 o leoedd, roedd rhai carcharorion yn ddi-waith neu heb ddigon o waith. Roedd oddeutu 50, neu draean o boblogaeth Prescoed yn cymryd rhan mewn gwaith allanol cymunedol neu gyflogedig.

### Argymhelliad pellach

2.113 Dylid darparu mwy o weithgareddau defnyddiol o ansawdd uchel.

### Addysg gorfforol a hybu iechyd

---

2.114 **Dylid gwella ansawdd cyfleusterau a chyfarpar yn y ddau garchar (5.28)**

**Wedi'i gyflawni.** Ym Mrynbuga, mae hen ystafell staff wedi'i thrawsnewid yn ystafell hyfforddiant pwysau ac ymarfer corff, ac er yn fach, roedd cyfarpar da yno. Mae'r carchar hefyd wedi creu maes chwaraeon awyr agored amlbwrpas ardderchog, sy'n cynnwys cyfleusterau newid a chawodydd da. Roedd cyfleusterau ym Mhrescoed yn rhesymol, gyda champfa pwysau da, cwrt tenis allanol a rhai meysydd chwaraeon o ansawdd dda. Roedd y neuadd chwaraeon fodd bynnag, yn fychan iawn ac o ddefnydd cyfyngedig.

### Argymhelliad pellach

2.115 Dylid darparu gwell neuadd chwaraeon ym Mhrescoed.

2.116 **Dylid cyflwyno cyrsiau, yn enwedig ym Mhrescoed, a fyddai'n rhoi'r sgiliau galwedigaethol sydd eu hangen ar gyflogwyr chwaraeon a hamdden i'r carcharorion. (5.29)**

**Heb ei gyflawni.** Roedd ychydig o garcharorion Brynbuga wedi cyflawni rhywfaint o gymwysterau OCN, ond nid oedd yr ymagwedd AG at ddysgu achrededig yn systematig. Dim ond un uwch swyddog a thri swyddog oedd gan yr Adran AG ac, ynghyd â rhywfaint o absenoldeb, dyma'r rheswm a roddwyd dros yr anawsterau i wella'r ystod ac ansawdd o ddysgu'n seiliedig ar AG.

**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

### Gwybodaeth ychwanegol

---

2.117 Roedd rhaglenni AG llawn ym Mrynbuga a Phrescoed ac adroddwyd fod 54% o garcharorion Brynbuga a thros 70% o garcharorion Prescoed yn cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau yn y gampfa. Roedd mynediad yn gyffredinol dda, ac fel arfer, roedd carcharorion yn gallu mynychu'r gampfa am bump neu fwy o sesiynau'r wythnos. Roedd staffio cyfyngedig wedi golygu mai dim ond ym Mhrescoed roedd y gampfa ar gael gyda'r nos, ond roedd y gampfa ar gael ar benwythnosau yn y ddau garchar. Roedd yr ystod o weithgareddau hamdden yn rhesymol, ac roedd sesiynau penodol i gwrdd ag anghenion carcharorion hŷn. Roedd cysylltiadau gyda staff gofal iechyd ac addysgol yn ddatblygedig iawn. Roedd y sesiynau AG-addysg 'buanedd, ystwythder a chyflymder' ar y cyd yn arolygu effeithiau ystwythder dwylo-llygaid gwell ar ddysgu.

### Argymhelliad pellach

2.118 Dylid darparu sesiynau AG gyda'r nos ym Mrynbuga.

### Ffydd a gweithgareddau crefyddol

---

2.119 **Dylai ystafelloedd aml-ffydd yn y ddau safle feddu ar gyfleusterau i garcharorion olchi eu traed cyn gweddïau Mwslemaidd. (5.39)**

**Heb ei gyflawni.** Rhannwyd capel Prescoed i gynnwys capel ac ystafell aml-ffydd. Roedd ystafell aml-ffydd Brynbuga yn fychan iawn ac wedi'i lleoli o fewn un o'r gweithdai. Nid oedd gan un o'r lleoliadau gyfleusterau ymolchi cyn addoli Mwslemaidd, ond dywedodd y caplan cydlynol fod y caplan Mwslemaidd yn derbyn y gallai carcharorion ddefnyddio'r cawodydd cyn gweddïo.

**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

### Argymhelliad pellach

2.120 Dylid cael ystafell aml-ffydd fwy wedi'i lleoli'n fwy priodol ym Mrynbuga.

2.121 **Dylid mynd i'r afael â mynychiad anrhagweladwy'r imam fel mater o flaenoriaeth. (5.40)**

**Wedi'i gyflawni.** Roedd y caplan Mwslemaidd yn mynychu Brynbuga a Phrescoed unwaith yr wythnos, pan fyddai'n gweld carcharorion Mwslemaidd ar gais, gan gynnwys trosglwyddiadau newydd a byddai'n cynnal grŵp trafod Mwslemaidd a gweddïau i ddilyn. Yn ystod yr arolygiad, roedd naw carcharor Mwslemaidd ym Mrynbuga a phedwar ym Mhrescoed. Cynhaliwyd gweddïau dydd Gwener gan garcharor a enwebwyd gan y Caplan Mwslemaidd. Er nad yw hyn yn ddelfrydol, roedd hyn yn dderbyniol gan y carcharorion Mwslemaidd buom yn siarad â nhw.

2.122 **Dylid cyflwyno rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer grwpiau astudio/gweddïo gyda'r nos ym Mhrescoed. (5.41)**

**Heb ei gyflawni.** Roedd y galw am wasanaethau crefyddol ac yn seiliedig ar ffydd yn isel ym Mhrescoed. Darparwyd grwpiau astudio a gweddïo gyda'r nos ychydig ar ôl yr arolygiad diwethaf, ond roeddent wedi dod i ben oherwydd nad oeddent yn boblogaidd. Ni fu ymgais i atgyfodi'r grwpiau hyn yn ystod y deunaw mis diwethaf.

### Argymhelliad pellach

2.123 Dylid canfasio diddordeb a'r galw am grwpiau astudio/gweddïo gyda'r nos yn rheolaidd a'u darparu os yn briodol.

### Gwybodaeth ychwanegol

---

2.124 Roedd caplaniaeth y carchar, a oedd yn weithredol ar draws y ddau safle, yn cynnwys un caplan llawn amser a thri chaplan rhan-amser, gydag ystod o arweinwyr enwadol i gwrdd ag

anghenion y boblogaeth bresennol. Byddai'r caplaniaid Iddewig a Sikh yn cael eu trefnu fel bo angen oherwydd bod y galw'n isel. Roedd y caplan cydlynol yn chwarae rhan weithredol ymysg cymuned ehangach y carchar. Er mai dim ond mynychu byrddau cynllunio dedfrydau ac arolygon ACCT pan fyddai ganddynt gysylltiad penodol â hwy yr oedd y gaplaniaeth, byddai'n cyfrannu at gyfarfodydd carchariad mwy diogel ac IEP.

- 2.125 Roedd y capel ym Mrynbuga wedi cael ei leihau i greu swyddfa ac ystafell ymgynghori gofal iechyd ychwanegol. O ganlyniad, nid oedd lle arall ar gyfer yr ystafell aml-ffydd, ac oherwydd ei lleoliad, nid oedd yn cael llawer o ddefnydd, heblaw gan y Mwslemaid. Roedd staff y carchar yn gobeithio byddai'r adran gofal iechyd newydd arfaethedig yn cynnig cyfle i ddatblygu cyfleuster aml-ffydd mwy priodol.

### **Amser o'r gell**

---

- 2.126 **Dylid darparu awr gyfan o ymarfer corff i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan ym Mrynbuga. (5.49)**

**Heb ei gyflawni.** Amserlenwyd ymarfer corff am hanner awr y dydd, er bod cyfnodau ymarfer corff ychwanegol yn cael eu darparu weithiau gyda'r nos yn ystod yr haf. **Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

- 2.127 **Dylid darparu seddi yn y buarth ymarfer corff ym Mrynbuga. (5.50)**

**Heb ei gyflawni.** Darparwyd un fainc fechan yng nghornel y buarth ymarfer corff, sy'n annigonol o gofio proffil oed y boblogaeth ym Mrynbuga. **Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

### **Gwybodaeth ychwanegol**

---

- 2.128 Adroddodd y carchar ganlyniad o oddeutu 13.8 awr o amser heb fod dan glo bob dydd i garcharorion ym Mrynbuga a Phrescoed, yn erbyn targed o 13.5 awr. Er bod hyn yn adlewyrchu'r realiti ym Mhrescoed, a oedd yn gweithredu cyfundrefn hollol agored, roedd yn gamarweiniol o ran Brynbuga, y mwyafswm o oriau byddai carcharor yn cael bod o'r gell yn ystod diwrnod o'r wythnos yno fyddai 10.75 awr. Fodd bynnag, roedd hyn yn fwy na'n disgwyliadau o 10 awr y dydd. Ychydig o lithriad oedd yn yr arferion dyddiol craidd ac nid oedd y cyfle i gymdeithasu gyda'r nos prin byth yn cael ei ddiddymu.

### **Diogeled a rheolau**

---

- 2.129 **Ni ddylai'r aelod staff sy'n gweithredu'r brif giât feddu ar y ddwy set o allweddi ar yr un pryd. (6.12)**

**Wedi'i gyflawni.** Arsyllwyd ar staff y porthdy a'u rheolaeth o allweddi'r carchar. Ar unrhyw un amser, dim ond un set o allweddi oedd yn eu meddiant - un ai'r rhai ar gyfer y giât flaen neu'r ail giât fewnol. Roedd y drws i'r brif ardal yn cynnwys y sêff allweddi dan glo bob amser. Er na wnaethom arsyllu'r staff nos yn ystod yr arolygiad, gwelsom hysbysiadau'n amlinellu'r arferion priodol i'w gweithredu, a dywedwyd wrthym fod rheolwyr yn gwneud gwiriadau rheolaidd.

## Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.130 Roedd yr adran ddiogeledd erbyn hyn yn ddarpariaeth ar y cyd ar draws y ddau sefydliad yn hytrach na'r ddau dîm ar wahân a fu yn y gorffennol. Roedd yr adran yn gweithredu o swyddfa fechan ym Mrynbuga. Roedd yn cynnwys pennaeth diogeledd graddfa llywodraethwr, prif swyddog, tri uwch swyddog, tri graddfa swyddog a dau goladydd. Roedd systemau rhesymol i reoli diogeledd a chydabuwyd gwahanol amgylchiadau'r ddau sefydliad.
- 2.131 Prif faterion diogeledd Prescoed oedd alcohol a chyffuriau, ond dim ond 5% a brofwyd yn bositif yn y profion cyffuriau mandeol. Byddai profi dan amheuaeth yn digwydd yn briodol os oedd amheuaeth o gamddefnyddio cyffuriau. Ym Mrynbuga, roedd natur y boblogaeth yn golygu fod materion diogelu'r cyhoedd a phlant yn flaenoriaeth. Cynhaliwyd byrddau rheoli risg rhyng-adrannol yn rheolaidd cyn rhyddhau carcharorion, gyda chyfraniadau priodol gan adrannau arwyddocaol. Fodd bynnag, roedd cofnodion y cyfarfodydd hyn yn fyr ac nid oeddent yn cynnwys dogfennau cefnogol i gyfeirio atynt yn y dyfodol.
- 2.132 Roedd monitro post y carcharorion wedi'i aildrefnu'n ddiweddar i wella effeithiolrwydd sensro, ond roedd monitro'r ffôn yn parhau i gael ei weithredu gan y staff nos. Roedd monitro'r ffôn yn arwain at oddeutu 40 SIR bob mis ym Mrynbuga ac oddeutu 30 ym Mhrescoed. Roedd yr adran ddiogeledd yn casglu'r rhain i baratoi adroddiadau misol gan ddadansoddi eu cynnwys. Er bod cyflwyniadau SIR yn gyson, ni chawsom ein darbwyllo fod yr adroddiadau a gyflwynwyd yn dilyn monitro'r ffôn yn nodi ymwneud amhriodol mwy cynnil.

### Argymhellion pellach

- 2.133 Dylid casglu a chofnodi gwybodaeth ar gyfer byrddau rheoli risg rhyngadrannol yn fwy manwl er mwyn sicrhau fod dulliau diogelu mwy priodol yn eu lle.
- 2.134 Dylai staff un pwrpas ymgymryd â monitro'r ffôn ym Mrynbuga.

## Disgyblaeth

---

- 2.135 **Dylid adolygu a hysbysebu tariffau gwobrau i garcharorion . (6.23)**

**Wedi'i gyflawni.** Adolygwyd tariffau ar gyfer gwrandawriadau disgyblu ac fe'u harddangoswyd yn amlwg yn y llyfrgell. Defnyddiwyd yr un ddogfen gyhoeddedig â'r un a ddefnyddiwyd i osod gwobrau.

- 2.136 **Dylid dod â'r system bresennol o erlyniad dwbl i garcharorion sy'n methu profion cyffuriau gorfodol i ben. Dylid gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch lleoliad gwaith carcharor yn dilyn methu prawf cyffuriau, gan y bwrdd rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL), yn dilyn asesiad risg newydd. (6.24)**

**Wedi'i gyflawni.** Mae'r arferiad o weithredu colli ROTL yn awtomatig ym Mhrescoed am gyfnod penodedig yn dilyn MDT positif wedi dod i ben. Yn lle hyn, penderfynwyd ar ROTL gan asesiad risg ar wahân. Defnyddiwyd yr arferiad hwn hefyd i'r rhai sy'n profi'n bositif mewn profion cydymffurfiol a gwirfoddol, ond nid oedd y rhai a fyddai'n cael canlyniad positif yn cael gadael hyd nes byddent yn gallu darparu sampl wrin negyddol. (gweler hefyd paragraff 2.181).

## Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.137 Roedd y nifer o ddyfarniadau ym Mrynbuga a Phrescoed yn isel. Yn 2007, bu 39 ym Mrynbuga a 106 ym Mhrescoed. Yn 2008 hyd nawr, bu tri ym Mrynbuga a 28 ym Mhrescoed. Mae'r ffigwr olaf yn cynnwys 10 carcharor a ddarganfuwyd yn yfed alcohol un noson. Nid oes gan yr un o'r carchardai ystafell ddyfarnu un pwrpas a defnyddir swyddfa eu llywodraethwr preswyl. Er bod hyn yn lleoliad eithaf anffurfiol, nid oedd yn tynnu oddi ar ddirifoldeb y digwyddiad. O'r ddogfennaeth a adolygwyd gennym yn y ddau sefydliad, ymddengys fod gwrandawiadau wedi'u hymgymryd yn briodol a gwobrau wedi'u rhoi o fewn y ddogfen wobwr a gyhoeddwyd.
- 2.138 Nid oedd gan yr un o'r carchardai uned arwahanu. Roedd cell ddal yn y dderbynfa ym Mrynbuga, ond prin fyddai hon yn cael defnydd. Nid oedd y celloedd a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer pwrpasau fel hyn bellach yn cael eu defnyddio ac nid oedd unrhyw gynlluniau i ddarganfod dewisiadau eraill.

## Cymelliadau a breintiau haeddiannol

---

- 2.139 **Dylai gwahaniaethau amlwg fodoli rhwng lefelau uwch a safonol i gydnabod ac annog ymddygiad cyfrifol. (6.31)**

**Heb ei gyflawni.** Roedd gan Frynbuga a Phrescoed bolisiau IEP ar wahân, y ddau wedi'u diweddarau'n ddiweddar. Fodd bynnag, dim ond ychydig o wahaniaethau oedd rhwng y lefelau uwch a safonol. Roedd ystod ychydig mwy eang o nwyddau a ganiatawyd i'r rhai ar lefelau uwch, gan gynnwys consol gemau. Roeddent yn gallu cael mynediad at £9 yn ychwanegol yr wythnos o arian parod preifat a gorchymyn ymweld ychwanegol y mis. Mae'r polisi cyhoeddedig yn nodi bod rhai swyddi yn y sefydliad ar gael i garcharorion statws uwch yn unig, ond nid oedd hyn yn wir.

**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

### Argymhelliad pellach

- 2.140 Dylid nodi a hysbysebu gwaith sydd ar gael i garcharorion ar statws uwch yn unig yn briodol.

## Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.141 Ar amser yr arolygiad, roedd 128 o garcharorion ym Mrynbuga ar statws uwch a 103 ar lefel safonol o IEP. Roedd un carcharor ar lefel sylfaenol a 15 o garcharorion newydd gyrraedd ar statws dros dro. Ym Mhrescoed, roedd lefel pellach, a ddisgrifir yn y ddogfen bolisi fel uwch plws. Nid oedd y lefel hwn wedi'i gategoreiddio ar system cronfa ddata lleol y carcharorion ac felly roedd y carcharorion yn cael eu marcio fel uwch. Dywedwyd wrthym fod oddeutu 40 o'r 115 carcharor uwch ar y lefel hwn.
- 2.142 Ymddengys for rhywfaint o gymysgwch o ran uwch plws. Dywedodd rhai aelodau o staff wrthym ei fod wedi cael ei amnewid â chategori 'ailsefydlu', lle byddai carcharorion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth ailsefydlu'n cael hawl i freintiau ychwanegol. Er bod yr ymagwedd hon yn briodol i'r sefydliad, ni wyddai'r holl staff amdano ac roedd yn gwrth-ddweud y polisi cyhoeddedig.



- 2.143 I'r carcharorion rheini a oedd yn gallu cael mynediad at freintiau lefel uwch, eu prif fantais oedd eu bod yn cynnig dau ymweliad cymuned ychwanegol, a oedd yn wahaniaeth arwyddocaol.

### Argymhelliad pellach

- 2.144 Dylai'r ddogfen polisi cymelliadau a breintiau haeddiannol (IEP) ar gyfer Prescoed egluro gweithrediad uwch plws.

### Arlwyo

---

- 2.145 **Dylid cadw'r ystafell fwyta gomunol ym Mhrescoed yn briodol lân a hylan. (7.9)**

**Heb ei gyflawni.** Defnyddiwyd yr ystafell fwyta gomunol ym Mhrescoed i gadw cyfarpar cegin yn ystod adnewyddiad y brif gegin. Gosodwyd y byrddau a'r cadeiriau'n agos at ei gilydd i adael lle i gyfarpar cegin mawr. Ar y cyfan roedd yr ystafell yn frwnt ac yn annddeniadol. **Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

- 2.146 **Dylid cael cyfleusterau er mwyn galluogi carcharorion a fyddai'n cyrraedd yn ôl i'r carchar ar ôl 6pm i gael pryd bwyd poeth. (7.10)**

**Wedi'i gyflawni.** Gall carcharorion gael pryd poeth hyd 6.30pm. Mae carcharorion sy'n cyrraedd yn ôl yn hwyrach yn derbyn cyllid i brynu bwyd poeth cyn iddynt ddychwelyd.

- 2.147 **Dylid darparu cyfleusterau i alluogi carcharorion i fwyta y tu allan i'w celloedd ym Mrynbuga. (7.11)**

**Heb ei gyflawni.** Er bod carcharorion yn dal i fwyta dan amgylchiadau cyfyng yn eu celloedd, roedd cynlluniau iddynt allu bwyta yn gomunol (gweler paragraff 2.7).

### Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.148 Roedd y gegin ym Mhrescoed wedi bod ar gau ers Tachwedd 2007 i'w hadnewyddu. Cyflenwyd y prydau bwyd dros dro o'r gegin ym Mrynbuga. Gwelsom fod y bwyd wedi'i goginio'n cael ei gludo mewn cynhwysyddion wedi selio heb amharu ar ansawdd y bwyd. Roedd y bwyd yn cyrraedd ar y tymheredd cywir a chadarnhaodd y carcharorion eu bod yn gallu archebu prydau o fwydlen amrywiol.

- 2.149 Ym Mrynbuga, roedd yr holl brydau bwyd yn cael eu gweini o gylchoedd trydan wedi'u lleoli ger y gegin. Gweinwyd y bwyd gan y carcharorion a'r staff arlwyo. Cadwyd y cylchoedd trydan yn lân a chadwyd y bwyd ar dymheredd priodol. Cadwyd llyfr sylwadau bwyd wrth y cylchoedd trydan ac roedd carcharorion yn gallu cael mynediad ato'n rhwydd. Roedd y rheolwr arlwyo'n ei wirio'n ddyddiol ac yn ymateb i sylwadau.

### Siop y Carchar

---

- 2.150 **Dylid ymgynghori â'r carcharorion yn weithredol, o leiaf bob tri mis, ynghylch yr eitemau yr hoffent weld yn siop y carchar, a dylid gweithredu ar yr adborth. (7.17)**

**Wedi'i gyflawni.** Sefydlwyd fforwm cymuned y carcharorion a byddant yn cyfarfod â phennaeth y preswylfeydd a'r rheolwr arlwyo yn fisol. Dangosodd cofnodion y cyfarfodydd bod

y carcharorion yn cael cyfle i fynegi eu barn a gwneud argymhellion o ran gwelliannau, gan gynnwys eitemau yr hoffent weld ar restr siop y carchar.

#### 2.151 **Dylid adolygu a gostwng prisiau'r ffreutur (7.18)**

**Wedi'i gyflawni.** Mae'r rheolwr arlwyo'n adolygu eitemau'n rheolaidd, gan gynnwys prisiau, gyda fforwm cymuned y carcharorion. Roedd y prisiau i'w gweld yn rhesymol ac yn cymharu â phrisiau'r stryd fawr.

### **Gwybodaeth ychwanegol**

---

- 2.152 Rheolwyd siop y carchar yn effeithiol gan y rheolwr arlwyo, fel gweithrediad mewnol. Fe'i lleolir mewn storfa ar dir y carchar ac roedd stoc dda yno, gan gynnwys ystod eang o gynnyrch ar gyfer carcharorion du a lleiafrifoedd ethnig. Roedd y gwasanaeth rhag-archebu, bagio a dosbarthu'n effeithlon ac yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion y rhai oedd ar fin gadael neu newydd gyrraedd. Gallai carcharorion dderbyn gwasanaeth siop llawn fel arfer y diwrnod ar ôl cyrraedd. Bydd staff ar yr unedau preswyl yn ffonio'r siop ac roedd modd i'r archebion gael eu dosbarthu ar yr un diwrnod.

### **Rheoli ailsefydlu'n strategol**

---

#### 2.153 **Dylid creu strategaeth ailsefydlu ar wahân ar gyfer Brynbuga, yn seiliedig ar ddatdrosodiad llawn o anghenion y boblogaeth. (8.7)**

**Heb ei gyflawni.** Er bod strategaeth ailsefydlu ddrfft wedi'i chynhyrchu, nid oedd wedi'i therfynu. Roedd y drafft yn gyfyngedig o ran ei ffocws ar ddiogelu'r cyhoedd a materion rheoli risg, sy'n allweddol ar gyfer poblogaeth Brynbuga. Roedd barn gyffredinol ymysg staff na ellir gweithredu ailsefydlu effeithiol gyda'r boblogaeth bresennol. Roedd methiant yn hyn i gydnabod anghenion penodol ailsefydlu'r carcharorion o ran diogelu'r cyhoedd. Ni wnaed dadansoddiad llawn o anghenion ailsefydlu carcharorion ym Mrynbuga.

**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

#### 2.154 **Dylid adolygu ac ailysgrifennu amodau gorchwyl y pwyllgor polisi ailsefydlu, i sicrhau fod y pwyllgor hwn yn rhoi sylw teilwng i anghenion ailsefydlu carcharorion Brynbuga. (8.8)**

**Heb ei gyflawni.** Ymddengys fod ffocws y pwyllgor polisi ailsefydlu wedi crwydro ers ein hymchwiliad diwethaf, yn sgil nifer o newidiadau rheolaethol. Roedd y pwyllgor wedi cyfarfod yn ddiweddar ac wedi cytuno ar amodau gorchwyl sylfaenol, ond nid oedd y rhain yn adlewyrchu ymroddiad i fynd i'r afael ag anghenion ailsefydlu penodol carcharorion ym Mrynbuga a Phrescoed.

**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

#### 2.155 **Dylid cyflwyno byrddau cyn-ryddhau ac arolygon gadael ffurfiol carcharorion yn y ddau safle. (8.9)**

**Heb ei gyflawni.** Nid oedd byrddau cyn-ryddhau ym Mrynbuga na Phrescoed, i adolygu anghenion carcharorion cyn rhyddhau, neu i nodi meysydd lle'r oedd angen mwy o wybodaeth neu gefnogaeth. Nid oedd carcharorion yn cael arolygon yn rheolaidd i dderbyn eu hadborth yn y naill sefydliad na'r llall cyn eu rhyddhau. Byddai'r wybodaeth hon wedi bod yn ddefnyddiol iawn yn arbennig ar gyfer carcharorion yn gadael Prescoed, i adolygu effaith y rhaglen

ailsefydlu ar ganlyniadau.  
**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

### **Gwybodaeth ychwanegol**

---

- 2.156 Cafwyd sawl rheolwr strategol ar gyfer rheoli strategol ailsefydlu ers yr arolygiad diwethaf. Roedd hyn wedi arwain at ychydig o grwydro a diffyg ffocws. Roedd llywodraethwr newydd wedi'i ddewis yn ddiweddar i arwain y gwaith hwn ac roedd yn rhy gynnar i nodi unrhyw effaith ar wasanaethau i garcharorion.
- 2.157 Cyfyngedig oedd cefnogaeth ailsefydlu carcharorion ym Mrynbuga ac nid oedd y carchar yn arbennig o effro i'r agenda lleihau ail-droseddu.

### **Rheoli a chynllunio troseddwy**

---

- 2.158 **Dylid dyrannu amser digonol i'r system asesu troseddwy (OASys) ym Mrynbuga i sicrhau fod asesiadau'n cael eu gwneud mewn digon o bryd ar gyfer byrddau cynllunio dedfrydau. (8.17)**

**Wedi'i gyflawni'n rhannol.** Cynhaliwyd rhai byrddau cynllunio cyn i'r OASys gael eu diweddar. Roedd hyn yn anfodhaol ac nid oedd yn rhoi blaenoriaeth addas i OASys i fod yn sail i'r gwaith cynllunio dedfrydau o asesiadau risg cywir a'r gydnabyddiaeth briodol o'r camau a gymerwyd i leihau risg o niwed ac aildroseddu.

### **Argymhelliad pellach**

- 2.159 Dylid diweddarau asesiadau'r system asesu troseddwy (OASys) cyn y byrddau cynllunio dedfrydau.

- 2.160 **Dylid adolygu gweithrediad y byrddau cynllunio dedfrydau ym Mhrescoed i sicrhau eu bod yn hollol effeithiol. (8.18)**

**Wedi'i gyflawni.** Cyflwynwyd ymagwedd safonol i gynllunio dedfrydau ym Mhrescoed. Roedd y prosesau cynllunio dedfrydau wedi'u cydlynu'n dda ac yn amserol, yn enwedig ar gyfer newydd-ddyfodiaid. Gwahoddwyd bob adran allweddol yn y carchar i gyfrannu at gynllunio dedfrydau ac roedd hyn yn sicrhau fod yr holl wybodaeth briodol yn cael ei hadolygu. Cynhaliwyd byrddau cynllunio dedfrydau yn wythnosol ac ar y cyfan roeddent yn gyfoes. Roedd rheolwyr troseddwy yn mynychu cyfran arwyddocaol o'r cyfarfodydd neu'n cyfrannu gwybodaeth os na allent fod yn bresennol. Anogwyd carcharorion hefyd i gymryd rhan weithredol yn y broses.

### **Gwybodaeth ychwanegol**

---

- 2.161 Ymunodd AEI Gwasanaeth Prawf â ni yn ystod yr arolygiad hwn, i ymgymryd ag arolygiad o drefniadau rheoli troseddwy. Roedd y rhan fwyaf o'r carcharorion yn y sgôp ar gyfer rheoli troseddwy ym Mrynbuga a lleolwyd adnoddau rheoli troseddwy yn briodol. Roedd gan yr uned rheoli troseddwy broffil cadarnhaol drwy'r carchar ac roedd yn cysylltu'n effeithiol gyda rheolwyr troseddwy yn y gymuned.

## Carcharorion dedfryd oes

---

### 2.162 Dylid cynnal adolygiadau cynllunio dedfrydau mewn pryd ym mhob achos. (8.27)

**Wedi'i gyflawni'n rhannol.** Roedd adolygiadau'n gyfredol ym Mhrescoed. Roedd oediad gyda chwblhau rhai adroddiadau ym Mrynbuga, oherwydd diffyg gwasanaethau seicoleg ar amser yr arolygiad (gweler hefyd paragraff 2.194). Golyga hyn roedd rhaid i rai adroddiadau gael eu cyflwyno heb y rhain. Fodd bynnag, nid oedd oediadau'n arwyddocaol ac roedd bob cynllun dedfryd oes/adolygiadau panel oes gorddewisol ac ymweliadau tref wedi'u hebrwng, yn cael eu hamserlennu'n briodol am y 18 mis i ddod.

### 2.163 Dylai cyfarfodydd ymgynghorol rhwng y tîm oes a'r carcharorion ar bob safle ddigwydd yn rheolaidd. (8.28)

**Wedi'i gyflawni.** Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd yn y ddau safle. Gwahoddwyd carcharorion i gyflwyno unrhyw gwestiynau cyn y cyfarfodydd ym Mrynbuga, fel eu bod yn gallu cael atebion llawn, a bod yr aelod cywir o staff yn cael eu gwahodd i fynychu os byddai angen. Bu fforwm hefyd ym Mrynbuga gyda'r llywodraethwr ym mis Hydref 2007. Er bod nodiadau wedi'u cymryd, nid oedd cofnodion ffurfiol o'r cyfarfod, felly nid oedd modd gwirio a oedd y pwyntiau gweithredu wedi'u cyflawni.

## Argymhelliad pellach

2.164 Dylid cyhoeddi cofnodion digwyddiadau ymgynghorol carcharorion oes yn yr unedau preswyl.

### 2.165 Dylid darparu cyfleusterau i alluogi carcharorion oes i baratoi eu prydau eu hunain. (8.29)

**Heb ei gyflawni (Brynbuga)/ Wedi'i gyflawni'n rhannol (Prescoed).** Nid oedd y sefyllfa cyfleusterau paratoi prydau ym Mrynbuga wedi newid ers yr arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, ym Mhrescoed, roedd y tŷ hanner ffordd yn gyfleuster ardderchog ar gyfer hyd at saith carcharor (gan gynnwys carcharorion oes) i fyw mewn amgylchiadau llai caeth, gyda'r cyfle i baratoi eu prydau eu hunain, pan fyddant wedi cyrraedd pwynt penodol o'u dedfryd. Roedd 5 o'r 12 carcharor oes ym Mhrescoed yn byw yn yr uned ar amser yr arolygiad.

## Gwybodaeth ychwanegol

---

2.166 Mae'r amgylchiadau i'r carcharorion oes ym Mhrescoed wedi gwella llawer ers ein harolygiad diwethaf. Nawr mae gan y sefydliad brofiad o'u rheoli, ac roedd carcharorion oes yn gwneud cynnydd priodol drwy'r amrywiol gamau o'r gyfundrefn ailsefydlu, yn yr un modd â'r carcharorion dedfrydau penodol. Roedd nifer y carcharorion oes wedi lleihau i ddim ond 12 ar amser yr arolygiad. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod carcharorion oes nawr yn symud ymlaen drwy'r system hyd at bwynt rhyddhau. Roedd deg o'r 12 carcharor oes wedi symud ymlaen i'r rhaglen gweithio hyd ailsefydlu, ac roedd y ddau arall ar fin dechrau hyn. Roedd cynllunio ac adolygiadau dedfrydau'n digwydd mewn pryd ac roedd carcharorion oes yn gyffredinol yn fwy bodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniasant.

2.167 Nid oedd y sefyllfa'r un mor gadarnhaol ym Mrynbuga, lle'r oedd 19 carcharor oes a phum carcharor gyda dedfrydau amhenodol er mwyn gwarchod y cyhoedd. Roedd y rheolwr carcharorion oes yn wybodus ac ymroddedig, ond yn ddiweddar, roedd wedi derbyn cyfrifoldeb

dros sawl maes newydd, gan gynnwys yr uned rheoli troseddwy'r a'r adran arsylwi, dosbarthu a dyrannu. Roedd hyn yn effeithio ar yr amser gallai ei neilltuo i faterion carcharorion oes, ond roedd adolygiadau cynllunio dedfrydau a gwrandawiaidau carcharorion oes yn cael eu hamserlennu'n briodol. Roedd carcharorion oes hefyd yn gallu ymweld â'r dref yng nghwmni hebryngwyr, yn amodol ar asesiadau risg. Eu prif broblem oedd diffyg cynnydd drwy'r system. Nid oedd y chwech a ystyriwyd, wedi gwneud cynnydd at gyflyrau agored yn y 12 mis diwethaf. Mae'r diffyg seicolegwyr yn y sefydliad hefyd yn golygu bod oediadau wedi bod wrth greu rhai adroddiadau parôl.

### Argymhelliad pellach

- 2.168 Dylid dyrannu digon o amser i'r rheolwr carcharorion oes i gyflawni ei dyletswyddau angenrheidiol.

## Llwybrau ailsefydlu

### Cynllunio ailintegreiddio

---

- 2.169 **Dylid sefydlu tîm ailsefydlu un pwrpas bychan ym Mrynbuga, er mwyn datblygu darpariaeth gwasanaeth. (8.10)**

**Heb ei gyflawni.** Darparwyd yr unig wasanaethau ailsefydlu i garcharorion ym Mrynbuga drwy'r ganolfan gyngori, sy'n cael ei staffio gan garcharorion wedi'u hyfforddi gan NACRO, i gynnig cyngor ar lety. Dyrannwyd ychydig o amser i un aelod o staff i oruchwylio'r trefniant hwn, ac roedd yn gallu arddangos mai ceisiadau am gyngor am lety a rheoli dyledion ac arian a dderbyniwyd yn bennaf gan garcharorion. Nid oedd unrhyw wasanaethau cefnogi ailsefydlu un pwrpas arall i garcharorion. Roedd y ganolfan gyngori wedi'i chau'n ddiweddar oherwydd adfeddiannu celloedd, ond roedd cynlluniau i adleoli'r gwasanaeth i bortakabin.

**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

- 2.170 **Dylid cyflwyno cyrsiau cyn-ryddhau ym Mrynbuga a Phrescoed, a dylai carcharorion sydd ar fin dechrau ar y rhaglen ailsefydlu hefyd gael cyfle i gymryd rhan. (8.46)**

**Heb ei gyflawni.** Parhawyd i ryddhau carcharorion o Frynbuga heb fynediad ffurfiol at raglen neu ymyriad i ddatblygu sgiliau i fyw yn y gymuned. Roedd oddeutu pum carcharor y mis yn cael eu rhyddhau o Frynbuga, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi bod ar ddedfrydau hir. Gallai carcharorion ym Mhrescoed gymryd rhan mewn cwrs paratoi am waith a gynigiwyd drwy'r adran addysg, ond roedd hwn yn gyfyngedig i bynciau yn ymwneud â gweithgareddau gwaith ac nid oedd yn cynnwys materion eraill sy'n ymwneud ag ailsefydlu, megis llety ac ailintegreiddio gyda theulu a chyfeillion.

## Llety

### Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.171 Fel yn yr arolygiad diwethaf, roedd trefniadau cyn-ryddhau yn cael eu rheoli'n agos, mewn cydweithrediad â threfniadau panel amlasiantaethol gwarchod y cyhoedd (MAPPA) a rheolwyr troseddwy'r profiannaeth i'r rhan fwyaf o garcharorion ym Mrynbuga. Rhyddhawyd y rhan fwyaf o garcharorion i hosteli cymeradwy o dan drefniadau goruchwylio rhagnodedig. Fodd bynnag, roedd anghenion llety'r holl garcharorion yn cael eu hasesu'n ffurfiol yn ystod eu

rhaglen ymsefydlu ac roedd swyddogion a charcharorion a hyfforddwyd yn parhau i gynghori carcharorion sut i gael cymorth angenrheidiol.

- 2.172 Ym Mhrescoed, aseswyd anghenion y carcharorion yn ystod eu hwythnos gyntaf ar ôl cyrraedd. Gwnaed atgyfeiriadau at asiantaethau llety priodol ac roedd bob carcharor a ryddhawyd yn gallu cael mynediad at lety wrth ryddhau. Yn 2007, rhyddhawyd yr holl garcharorion i gyfeiriad llety.

### **Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth**

---

- 2.173 **Dylid ystyried cyfnodau wedi eu darwahanu o waith cymuned, yn hytrach na'r 40 diwrnod penodedig, yn ddibynnol ar y cyfnod ar ôl yn y carchar. Byddai hyn yn galluogi carcharorion gyda llai nag wyth mis ar ôl i gymryd rhan yn y rhaglen ailsefydlu a chael budd o allu symud ymlaen at waith cyflogedig cyn eu rhyddhau. (8.47)**

**Heb ei gyflawni.** Disgwylwyd i garcharorion ym Mhrescoed i gwblhau 40 diwrnod o waith ar brosiectau gwaith di-dâl, cyn symud ymlaen i gam dau o'u rhaglen ailsefydlu. Y farn oedd eu bod angen eu profi'n gynhwysfawr cyn eu dyrannu i waith â thâl, yn enwedig gan fod mwy o garcharorion heriol yn cael eu hanfon i sefydliadau categori D cyn diwedd eu dedfryd. Roedd y carchar yn cydnabod fod rhywfaint o anghyfiawnder gyda'r ymagwedd hon, ond roedd yn credu bod y budd o sicrhau fod carcharorion yn llwyddo ar y rhaglen ailsefydlu drwy ddewis yn ofalus a monitro agos yn gorbwyso'r anfanteision.

**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

### **Gwybodaeth ychwanegol**

---

- 2.174 Roedd addysg, hyfforddiant a chefnogaeth cyflogaeth da i garcharorion. Aseswyd anghenion unigolion yn ddadansoddol wrth eu hymsefydlu, a chynigiwyd cefnogaeth wrth gyfeirio carcharorion tuag at ddysgu. Roedd y rhan fwyaf o garcharorion, yn enwedig ym Mrynbuga, yn cymryd rhan mewn gwahanol ffurf o addysg neu hyfforddiant galwedigaethol. Roedd y carchar wedi datblygu cysylltiadau ystyrlon gyda Gyrfa Cymru, ac ymgynghorwyd â nhw i sicrhau fod y ddarpariaeth yn unol ag anghenion sgiliau a aseswyd yng Nghymru. Darparwyd canllawiau hefyd i unigolion, ac roedd y carchar yn ceisio datblygu hyn mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru.
- 2.175 Gallai carcharorion ym Mhrescoed weithio tuag at gam dau o ymagwedd ailsefydlu'r carchar, gan arwain ymlaen at waith cyflogedig neu hyfforddiant wrth weithio y tu allan i'r sefydliad. Ar amser ein harolygiad, roedd 34 o garcharorion Prescoed yn cymryd rhan mewn gwaith cymuned a 15 mewn gwaith cyflogedig. Cyflwynwyd Gwobr Ymddiriedolaeth Butler yn ddiweddar i gynllun ailsefydlu Prescoed.

### **Iechyd meddwl a chorfforol**

### **Gwybodaeth ychwanegol**

---

- 2.176 Roedd darpariaeth ailsefydlu i garcharorion gydag anghenion iechyd meddwl a chyffredinol yn dda. Roedd cyfathrebu da rhwng y ddau garchar â'r timau iechyd meddwl a sylfaenol cymunedol.

## Cyllid, budd-daliadau a dyledion

### Gwybodaeth ychwanegol

---

- 2.177 Ni fu asesiadau trosfwaol o anghenion carcharorion am gymorth gyda chyllid, budd-daliadau a dyledion, ond roedd modd i garcharorion gael gwybodaeth gyfyngedig drwy ganolfan gynghori Brynbuga. Ym Mhrescoed, gallai carcharorion gael cyngor gan y Ganolfan Byd Gwaith ac agor cyfrifon banc wedi iddynt sicrhau cyflogaeth.

### Argymhelliad pellach

- 2.178 Dylid asesu carcharorion ym Mrynbuga yn ystod eu hymsefydliad am unrhyw anghenion cyngor cyllid, budd-daliadau a dyledion.

### Cyffuriau ac alcohol

---

- 2.179 **Dylid gwneud dadansoddiad anghenion hyfforddiant i nodi lefelau sgiliau a gallu staff strategaeth cyffuriau, wedi'i fapio yn erbyn meini prawf megis safonau galwedigaethol cyffuriau ac alcohol cenedlaethol (DANOS). (8.69)**

**Wedi'i gyflawni.** Cafwyd dadansoddiad anghenion hyfforddiant o'r holl staff strategaeth cyffuriau, ac roedd DANOS yn cael ei weithredu. Roedd hyfforddiant yn digwydd bob deufis ym mhencadlys Asiantaeth Cyffuriau Gorllewin Morgannwg, ac roedd yn gysylltiedig ac wedi'i gymeradwyo gan DANOS. Roedd staff cynghori, asesu, adgyfeirio, cyngor a gofal drwodd (CARAT), yn derbyn gwerthusiad blynyddol a goruchwyliad misol. Roedd y tîm CARAT yn cynnwys pedwar gweithiwr CARAT ac un gweinyddydd ac yn gweithredu ym Mrynbuga a Phrescoed. Roedd un gweithiwr CARAT wedi'i hyfforddi fel cynghorydd anhwylder straen ôl-drawmatig ac roedd yn darparu sesiynau un-wrth-un gyda carcharorion a fu'n ddiodefswyr camdriniaeth a thrawma.

- 2.180 **Dylai'r tîm CARAT (cynghori, asesiad, adgyfeirio, cyngor a gofal drwodd) ddatblygu system ffurfiol ar gyfer rheoli llwythi gwaith gyda chyfeiriad penodol i'r uned Cape ym Mhrescoed. (8.70)**

**Wedi'i gyflawni.** Mae swyddog gweinyddol CARAT wedi bod yn ei swydd ers Mai 2007 ac yn rheoli'r holl lwyth gwaith ar gronfa ddata gyfrifiadurol. Mae hyn wedi cynyddu'r amser gall gweithwyr CARAT dreulio gyda'u cleientiaid. Mae carcharorion yn uned Cape ym Mhrescoed yn cael budd o'r polisi drws agored, a ddarperir gan y gweithiwr CARAT sy'n gweithio yno'n ddyddiol rhwng 7am a 7pm. Roedd cyfarfodydd i drafod derbyniadau a rhyddhau o'r uned yn digwydd yn wythnosol. Pythefnos yw'r amser aros am dderbyniad i'r uned ar amser ein harolygiad. Roedd y carcharorion y gwnaethom siarad â nhw yn canmol uned Cape yn fawr ac yn teimlo'n ddiogel yno.

- 2.181 **Ni ddylid cosbi carcharorion am ganlyniad positif i brawf cyffuriau gwirfoddol (VDT). Dim ond ar ôl asesiad risg ffurfiol dylid penderfynu ar golli rhyddhau ar drwydded dros dro. (8.71)**

**Wedi'i gyflawni.** Roedd yr holl carcharorion a dderbyniwyd i uned Cape wedi cael prawf cyffuriau gwirfoddol (VDT), fel rhan o'u cytundeb i barhau'n rhydd o gyffuriau. Mae'r holl carcharorion sydd wedi cael VDT positif dan gyfyngiadau iechyd a diogelwch er mwyn lleihau risg iddynt eu hunain ac eraill. Pe byddent yn cael eu cyflogi mewn gwaith sy'n gysylltiedig â

pheiriannau, anifeiliaid, cegin neu weithio mewn lleoedd uchel, byddent yn cael eu tynnu allan o'r gwaith hwn hyd nes ceir prawf cyffuriau negyddol. Mae'r oediad cyn y prawf dilynol yn ddibynnol ar y cyffur a gymerwyd. Os mai canabis oedd y cyffur, cyfyngwyd y carcharor am 28 diwrnod. Nid oedd IEP yn cael eu hisraddio. Ar ôl dau VDT positif, byddai'r carcharor yn cael cyfarfod gyda gweithiwr achos CARAT i drafod y rhesymau pam roedd wedi cymryd y cyffuriau a'i symbyliad i barhau'n rhydd o gyffuriau ac ar uned Cape. Roedd tîm CARAT yn gysylltiedig â'r byrddau ROTL. Roedd bob achos yn derbyn asesiad risg ar sail iechyd a diogelwch. Roedd ROTL wedi cael ei ddiddymu am 28 diwrnod i bawb er mwyn lleihau risgiau iechyd a diogelwch i garcharorion a'r cyhoedd. Fodd bynnag, bu hyn yn fwy hyblyg yn ddiweddar ac roedd proses asesu risg mwy cynhwysfawr ac unigol wedi arwain at fwy o amrywiaeth yn y dyddiau ROTL a gollwyd, ac mewn rhai achosion, dim un.

**2.182 Dylid ymgymryd ag adolygiad dadansoddiad profion cyffuriau gwirfoddol (VDT) bob chwe mis ym Mhrescoed, er mwyn sicrhau y gellir cwrdd ag unrhyw gynnydd yn y galw am VDT. (8.72)**

**Wedi'i gyflawni.** Bob mis, byddai bob carcharor ar uned Cape yn derbyn VDT oddeutu 1.5 gwaith. Byddai gweinyddydd CARAT yn casglu'r ffigyrau hyn a'u rhoi mewn cronfa ddata. Cysylltwyd ymyriadau cyn-rhyddhau yn agos gydag asiantaethau allanol, ac roedd y broses yn dechrau 4 wythnos cyn rhyddhau'r carcharor. Roedd gan y tîm CARAT gysylltiadau lleol eang gyda thimau rhaglenni ymyriad cyffuriau ac asiantaethau allanol eraill yn cynnig cyngor tai a cyllid, a fyddai'n arwain at ymagwedd gydlynol at gefnogi carcharor wrth ei ryddhau.

### **Gwybodaeth ychwanegol**

---

2.183 Roedd CARAT yn cynnig ystod o raglenni camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn y ddau safle, ac roedd wedi'i integreiddio'n dda yn y carchar. Ym Mhrescoed, cyflawnwyd hybu iechyd a lles drwy gysylltiadau agos â'r tîm AG ar ddyddiau cryfhau timau, pan fyddai staff AG, gweithwyr CARAT a grŵp o garcharorion yn mynd i gerdded neu feicio mynydd.

### **Plant a theuluoedd y troseddwyr**

---

**2.184 Dylid gosod systemau yn eu lle i sicrhau fod yr ystafell ymweld yn lân ac wedi'i haddurno'n ddigonol ym Mhrescoed. (3.51)**

**Wedi'i gyflawni'n rhannol.** Roedd man ymweld Prescoed mewn ystafell fawr a oedd hefyd yn cynnwys y neuadd fwyta. Roedd y gegin yn cael ei huwchraddio, felly roedd y llwch a'r baw a grëwyd yn ystod y gwaith hwn wedi effeithio ar y man ymweld. Heblaw am hyn, roedd y man wedi'i ailaddurno a chrëwyd lle chwarae i blant ac roedd yn gwneud yr amgylchedd yn fwy priodol.

**2.185 Dylid sefydlu canolfannau ymwelwyr ym Mrynbuga a Phrescoed (3.52)**

**Wedi'i gyflawni'n rhannol.** Crëwyd canolfan ymwelwyr ym Mhrescoed, ond roedd yn sylfaenol. Gallai ymwelwyr lofnodi yno cyn symud ymlaen i'r man ymweld, ac roedd yma fan eistedd eithaf cyffyrddus, teledu ac ystod o wybodaeth ysgrifenedig am gyfundrefn y carchar. Ar amser yr arolygiad, defnyddiwyd yr adeilad hefyd gan y staff ailsefydlu i reoli carcharorion sy'n mynd allan i weithio ac i ryddhau carcharorion, tra roedd lle newydd yn cael ei adeiladu yn y prif garchar. Pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, bwriedir defnyddio'r adeilad hwn ar gyfer ymwelwyr yn unig. Fodd bynnag, roedd Brynbuga'n parhau i fod heb ganolfan ymwelwyr. Defnyddiwyd coridor bychan yn y porthdy fel man aros, ond yn ystod ein harolygiad, gwnaethom gyfarfod â rhai ymwelwyr y bu'n rhaid iddynt aros y tu allan i giatiau'r carchar.



Roedd cynlluniau ar gyfer canolfan/man aros ymwelwyr newydd yn y carchar ac i ailstrwythuro'r man ymweld.

**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

- 2.186 **Dylai'r sefydliad hyrwyddo'r broses ymweld drwy ddarparu cludiant i ac o'r gorsafoedd trenau gerllaw ar ddyddiau ymweld. (3.53)**

**Heb ei gyflawni.** Nid oedd cludiant ar gael i ymwelwyr i ac o garchar Prescoed a'r gorsafoedd trenau gerllaw o hyd, er bod ymweliadau â'r carchar yn cael eu cyfyngu i'r penwythnosau'n unig.

**Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad.**

### **Gwybodaeth ychwanegol**

---

- 2.187 Gan fod nifer o'r carcharorion ym Mhrescoed yn cael mynediad at ymweliadau cymunedol, roedd y galw am ymweliadau â'r sefydliad yn isel, ond roeddent wedi cynyddu gyda'r cynnydd diweddar ym mhoblogaeth y sefydliad. Ar y dydd Sul cyn ein harolygiad, bu 29 o ymwelwyr yn y carchar.
- 2.188 Roedd y man ymweld ym Mrynbuga yn glos ac yn rhwystrol. Roedd yr ystafell wedi'i rhannu'n fras ar gyfer y rhai a all gael mynediad at blant a'r rhai na all wneud hynny. Nid oedd man chwarae i blant.
- 2.189 Ym Mrynbuga, nid oedd rhaglen ddatblygu deuluol i garcharorion a allai gael cysylltiad â phlant, os oedd roedd yn fychan iawn.. Nid oedd ymweliadau teulu, heblaw dyddiau carcharorion oes, a dim cyrsiau magu plant na'r prosiect 'Story Book Dads'. Nid oedd yr un unigolyn wedi'i nodi i ddwyn yr agwedd hon o ailsefydlu ymlaen. Er bod y carchar wedi cynnal cynllun peilot swyddog personol-a-mwy i gefnogi cysylltiadau rhwng teuluoedd a staff y carchar, nid oedd yr un teulu hyd yn hyd wedi derbyn y cynnig o gyswllt (gweler paragraff 2.25). Ychydig iawn oedd i ddangos unrhyw gynnydd ers cynllun peilot tebyg ychydig cyn ein harolygiad diwethaf.
- 2.190 Mewn gwrthgyferbyniad, roedd dyddiau teulu yn ddigwyddiadau rheolaidd ym Mhrescoed – fel arfer un yn ystod bob gwyliau ysgol – ac roedd rhaglen 'Story Book Dads' drwy'r adran addysg. Datblygwyd cynllun partneriaeth newydd hefyd rhwng y carchar a Chyngor Sir Mynwy am raglen chwe sesiwn i gyflwyno tadau i fodolau iaith a chwarae gyda'u plant bach. Er yr holl gynlluniau cadarnhaol hyn, nid oedd unigolyn penodedig yn y sefydliad i ddwyn y gwaith hwn ymlaen.

### **Argymhelliad pellach**

- 2.191 Dylai Brynbuga a Phrescoed nodi unigolyn yr un i gefnogi a dwyn cysylltiadau rhwng carcharorion a'u teuluoedd ymlaen, os yn briodol.

### **Agweddau, barn ac ymddygiad**

---

- 2.192 **Dylid parhau â gwaith grwpiau ysgogi gyda gwadwyr a dylid gwerthuso'r canlyniadau. (8.34)**

**Wedi'i gyflawni'n rhannol.** Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r carchar wedi hyfforddi staff i ddarparu'r rhaglen ysgogi A-Z i garcharorion sy'n gwadu eu troseddau rhywiol neu'n gwrthod

cymryd rhan mewn gweithdrefnau triniaethau. Yn y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd hyn ddwywaith ar gyfer cyfanswm o naw carcharor, ac roedd cynlluniau ar gyfer cwrs i bedwar arall. O gofio fod y carchar yn amcangyfrif fod dros 100 o garcharorion yn gwadu eu troseddau neu'n gwrthod cymryd rhan mewn triniaethau, roedd potensial ar gyfer galw mawr am y rhaglen hon. Nid oedd y carchar wedi ymgymryd ag unrhyw werthusiad ffurfiol o effaith y rhaglen hon.

### **Argymhelliad pellach**

- 2.193 Dylid cynnig gwaith grŵp ysgogol gyda gwadwyr i'r holl garcharorion y mae eu hanghenion wedi'u pennu, a dylid gwerthuso'r canlyniadau.

### **Gwybodaeth ychwanegol**

---

- 2.194 Er yr ystyrir Brynbuga i fod yn garchar trin troseddwy rhyw, ni allai ddarparu ystod gynhwysfawr o opsiynau triniaeth ers dros flwyddyn. Roedd hyn oherwydd prinder cenedlaethol o seicolegwyr siartredig i oruchwyllo ansawdd y rhaglenni ac roedd yn golygu fod rhai carcharorion wedi bod yn disgwyl sawl mis i fynychu darpariaethau gwaith grŵp neu wedi gorfod cael eu trosglwyddo i sefydliadau eraill pan fyddai lleoedd ar raglenni ar gael.
- 2.195 Roedd Prescoed wedi gwneud cysylltiadau effeithiol gyda'r ardal brawf leol ac wedi rhyddhau carcharorion ar drwyddedau dros dro (ROTL), i fynychu rhaglenni achrededig yn y gymuned. Roedd hyn yn llawn dychymyg ac yn sicrhau nad oedd carcharorion yn gorfod aros am gyfnodau maith cyn y gallent gael mynediad at raglenni a nodwyd drwy'r cynlluniau dedfrydu. Roedd carcharorion wedi cael eu rhyddhau i fynychu sgiliau meddwl gwell (ETS), ac roedd cynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth hon i ystod o raglenni achredig eraill, gan gynnwys gyrwyr a amharwyd gan alcohol a CALM (rheoli tymer a dysgu sut i'w reoli).

### **Argymhelliad pellach**

- 2.196 Dylai bod seicolegwyr siartredig ar gael i oruchwyllo'r holl raglenni trin troseddwy rhyw.

# Adran 3: Crynodeb o argymhellion

Rhestr yw'r canlynol o'r argymhellion a ailadroddwyd a phellach a gynhwysir yn yr adroddiad hwn. Mae'r rhifau cyfeirnod mewn cromfachau yn cyfeirio at leoliad y paragraff yn y prif adroddiad.

## Argymhellion

## I'r llywodraethwr

### Unedau preswyl

- 3.1 Dylid caniatáu i garcharorion wisgo'u dillad eu hunain heb gyfyngiadau amser. (2.15)
- 3.2 Dylid sgrinio pob cawod yn ddigonol. (2.19)
- 3.3 Dylid sgrinio'r toiledau'n llwyr mewn celloedd sy'n cael eu rhannu. (2.20)

### Perthnasau staff-carcharorion

- 3.4 Dylai cofnodion staff mewn ffeiliau carcharorion adlewyrchu eu gwybodaeth am amgylchiadau personol a chyflwr carcharorion. (2.23)
- 3.5 Dylai rheolwyr wirio cofnodion mewn ffeiliau carcharorion yn rheolaidd o safbwynt sicrhau ansawdd. (2.24)

### Swyddogion personol

- 3.6 Dylid cyhoeddi polisi'n disgrifio'r cynllun swyddogion personol-a-mwy, a rhoi cyhoeddusrwydd iddo ymhlith yr holl staff, a dylai'r rheolwyr sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn y ddau sefydliad drwyddynt draw. (2.26)
- 3.7 Dylid cyhoeddi dogfen bolisi a chyfarwyddyd ar rôl a chyfrifoldebau swyddogion personol. (2.29)

### Lleihau bwlio a thrais

- 3.8 Dylid rhoi'r strategaeth lleihau trais newydd ar waith yn llawn. (2.35)
- 3.9 Dylai'r holl staff gael hyfforddiant mewn gwrth-fwlio a lleihau trais. (2.36)

### Hunan-niweidio a hunanladdiad

- 3.10 Dylai'r holl staff ar y ddau safle sydd mewn rolau cyswllt â charcharorion dderbyn hyfforddiant mewn asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) yn ymwneud â hunan-niweidio. (2.38)
- 3.11 Dylid diweddarw'r polisi atal hunanladdiad. (2.45)
- 3.12 Dylid egluro rôl y cydlynnydd carchariad mwy diogel ar y ddau safle a dylid rhoi digon o amser i gydlynwyr gyflawni'r rôl hon. (2.46)

- 3.13 Dylai cylch gorchwyl y pwyllgor carchariad mwy diogel fod yn gulach, gyda ffocws mwy strategol ar agweddau allweddol carchariad mwy diogel. (2.47)
- 3.14 Dylid bob amser cynnal cyfweiliad â charcharor ar ôl cau ei ACCT. (2.48)
- 3.15 Dylai adolygiadau gofal fod yn rhai amlddisgyblaethol, yn cynnwys staff o adrannau eraill. (2.49)
- 3.16 Dylai'r pwyllgor carchariad mwy diogel adolygu dogfennau ACCT sydd wedi'u cwblhau i sicrhau bod angen agor y ddogfennaeth hon. (2.50)
- 3.17 Dylid rheoli carcharorion mewn risg o hunan-niweidio neu i ladd eu hunain ym Mrynbuga lle bo'n bosibl. (2.51)

### **Amrywiaeth**

---

- 3.18 Dylid diweddarau'r strategaeth ar gyfer rheoli carcharorion hŷn ym Mrynbuga a rhoi cyhoeddusrwydd iddi ymhlith yr holl staff. (2.5)
- 3.19 Dylid sefydlu grŵp ymgynghori ar gyfer carcharorion hŷn, yn cynnwys nid yn unig yr adran gofal iechyd, ond rheolwyr preswyl a staff addysg gorfforol (AG) a staff eraill. (2.6)
- 3.20 Dylai carcharorion hŷn gael celloedd ar eu pennau eu hunain lle bo'n bosibl, ac ni ddylid dyrannu'r bync uchaf iddynt ar unrhyw gyfrif. (2.53)

### **Cydraddoldeb hiliol**

---

- 3.21 Dylid datblygu cysylltiadau â sefydliadau cydraddoldeb hiliol cymunedol ymhellach. (2.57)
- 3.22 Dylai'r carchar asesu'r rheswm pam mai nifer fach yn unig o garcharorion sy'n cyrraedd Prescoed o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig. (2.66)

### **Carcharorion gwladolion tramor**

---

- 3.23 Dylid rhoi'r polisi gwladolion tramor ar waith cyn gynted â phosibl (2.67)
- 3.24 Dylid sefydlu pwyllgor gwladolion tramor i roi cyfle i garcharorion sy'n wladolion tramor godi materion cyffredin. (2.68)
- 3.25 Dylai'r cydlynnydd gwladolion tramor fynychu cyfarfodydd tîm gweithredu cydraddoldeb hiliol (TGCH) ac adrodd ar faterion sy'n ymwneud yn benodol â charcharorion sy'n wladolion tramor. (2.70)
- 3.26 Dylid datblygu'r cysylltiadau ag Asiantaeth Ffiniau'r DU ymhellach a chynnwys trefniadau ffurfiol ar gyfer ymweliadau a chymorthfeydd ar gyfer carcharorion sy'n wladolion tramor. (2.72)
- 3.27 Dylid dyrannu digon o amser i'r cydlynnydd gwladolion tramor i i allu cyflawni'r dyletswyddau hyn. (2.75)
- 3.28 Dylid hysbysebu rôl y cydlynnydd gwladolion tramor yn eang, a chynnwys manylion cyswllt. (2.76)

- 3.29 Dylid bod â phwyllgor gwladolion tramor aml-ddisgyblaethol i sicrhau fod y polisi gwladolion tramor yn cael ei roi ar waith yn llawn ac i gefnogi'r cydlynnydd gwladolion tramor. (2.77)
- 3.30 Dylai gwybodaeth am bolisiau a gweithdrefnau lleol fod ar gael i garcharorion sy'n wladolion tramor mewn ieithoedd perthnasol. (2.78)
- 3.31 Dylid hysbysebu cyfleusterau lladmeru'n well. (2.79)

### **Ceisiadau a chwynion**

---

- 3.32 Dylid cofnodi pob cais a dadansoddi amseroldeb ac ansawdd atebion. (2.80)
- 3.33 Dylid cyflwyno system ffurfiol ar gyfer dadansoddi cwynion ym Mhrescoed. (2.82)
- 3.34 Dylid cyflwyno system rheoli ansawdd y weithdrefn cwynion ym Mrynbuga a Phrescoed. (2.83)
- 3.35 Os oes gofyn am ymateb pellach neu ohiriedig wrth ymateb i gŵyn, a hynny'n golygu mynd y tu hwnt i'r amserlen darged, dylid cofnodi hyn a'i reoli fel bod y carcharor yn cael gwybod am yr amserlen â'r targedau wedi'u nodi'n glir arni. (2.86)

### **Gwasanaethau iechyd**

---

- 3.36 Dylid darparu cyfleuster gofal iechyd newydd ym Mrynbuga. (2.1)
- 3.37 Dylid gosod cyfarpar TG Gofal sylfaenol-gytûn newydd, gan gynnwys meddalwedd i reoli clefydau cronig a rheoli meddyginiaethau. (2.92)
- 3.38 Dylid sefydlu pwyllgor meddyginiaethau a therapiwteg, gyda chynrychiolaeth briodol o'r ddau garchar. Dylai adolygu bob gweithdrefn a pholisiau fferyllol yn rheolaidd. (2.95)
- 3.39 Dylid ystyried defnyddio staff gofal iechyd presennol fel rhagnodwyr atodol (yn ddibynnol ar hyfforddiant priodol), a chyflwyno grŵp cleifion cyfeiriadol. (2.96)
- 3.40 Dylai pob carcharor gael gwasanaeth fferyllol sy'n gyfartal â'r gwasanaeth yn y gymuned, gan gynnwys y gallu i fynd yn syth at staff fferyllol wedi'u hyfforddi'n yn briodol am gyngor a gwybodaeth am fuddion a risgiau meddyginiaethau. (2.103)

### **Gweithgareddau dysgu a sgiliau a gwaith**

---

- 3.41 Dylid ymestyn oriau agor cyfleuster dysgu agored Prescoed. (2.107)
- 3.42 Dylid nodi a chyflwyno meysydd pellach lle gall carcharorion ennill cymwysterau galwedigaethol. (2.108)
- 3.43 Dylid darparu mwy o weithgareddau defnyddiol o ansawdd uchel. (2.113)

### **Addysg gorfforol a hybu iechyd**

---

- 3.44 Dylid darparu neuadd chwaraeon well ym Mhrescoed. (2.115)

- 3.45 Dylid cyflwyno cyrsiau, yn enwedig ym Mhrescoed, a fyddai'n rhoi'r sgiliau galwedigaethol sydd eu hangen ar gyflogwyr chwaraeon a hamdden i'r carcharorion. (2.116)
- 3.46 Dylid darparu sesiynau AG gyda'r nos ym Mrynbuga. (2.118)

### **Ffydd a gweithgareddau crefyddol**

---

- 3.47 Dylai ystafelloedd aml-ffydd yn y ddau safle feddu ar gyfleusterau i garcharorion olchi eu traed cyn gweddïau Mwslemaidd. (2.119)
- 3.48 Dylid cael ystafell aml-ffydd fwy wedi'i lleoli'n fwy priodol ym Mrynbuga. (2.120)
- 3.49 Dylid canfasio diddordeb a'r galw am grwpiau astudio/gweddïo gyda'r nos yn rheolaidd a'u darparu os yn briodol. (2.123)

### **Amser o'r gell**

---

- 3.50 Dylid darparu awr gyfan o ymarfer corff i'r rhai syn dymuno cymryd rhan ym Mrynbuga. (2.126)
- 3.51 Dylid darparu seddi yn y buarth ymarfer corff ym Mrynbuga. (2.127)

### **Diogeldd a rheolau**

---

- 3.52 Dylid casglu a chofnodi gwybodaeth ar gyfer byrddau rheoli risg rhyngadrannol yn fwy manwl er mwyn sicrhau fod dulliau diogelu mwy priodol yn eu lle. (2.133)
- 3.53 Dylai staff un pwrpas ymgymryd â monitro'r ffôn ym Mrynbuga. (2.134)

### **Cymelliadau a breintiau haeddiannol**

---

- 3.54 Dylai gwahaniaethau amlwg fodoli rhwng lefelau uwch a safonol i gydnabod ac annog ymddygiad cyfrifol. (2.139)
- 3.55 Dylid nodi a hysbysebu gwaith sydd ar gael i garcharorion ar statws uwch yn unig yn briodol. (2.140)
- 3.56 Dylai'r ddogfen polisi cymelliadau a breintiau haeddiannol (IEP) ar gyfer Prescoed egluro gweithrediad uwch plws. (2.144)

### **Arlwyo**

---

- 3.57 Dylid cadw'r ystafell fwyta gomunol ym Mhrescoed yn briodol lân a hylan. (2.145)

### **Rheoli ailsefydlu strategol**

---

- 3.58 Dylid creu strategaeth ailsefydlu ar wahân ar gyfer Brynbuga, yn seiliedig ar ddadansoddiad llawn o anghenion y boblogaeth. (2.153)
- 3.59 Dylid adolygu ac ailysgrifennu amodau gorchwyl y pwyllgor polisi ailsefydlu, i sicrhau fod y pwyllgor hwn yn rhoi sylw teilwng i anghenion ailsefydlu carcharorion Brynbuga. (2.154)

- 3.60 Dylid cyflwyno byrddau cyn-ryddhau ac arolygon mynd allan ffurfiol i garcharorion yn y ddau safle. (2.155)

### **Rheoli a chynllunio troseddwy**

---

- 3.61 Dylid diweddarau asesiadau'r system asesu troseddwy (OASys) cyn y byrddau cynllunio dedfrydau. (2.159)
- 3.62 Dylid cyhoeddi cofnodion digwyddiadau ymgynghorol carcharorion oes yn yr unedau preswyl. (2.164)
- 3.63 Dylid dyrannu digon o amser i'r rheolwr carcharorion oes i gyflawni ei dyletswyddau angenrheidiol. (2.168)

### **Llwybrau ailsefydlu**

---

- 3.64 Dylid sefydlu tîm ailsefydlu bychan un pwrpas ym Mrynbuga, er mwyn datblygu darpariaeth gwasanaeth. (2.169)
- 3.65 Dylid ystyried cyfnodau wedi eu darwahanu o waith cymuned, yn hytrach na'r 40 diwrnod penodedig, yn ddibynnol ar y cyfnod ar ôl yn y carchar. Byddai hyn yn galluogi carcharorion gyda llai nag wyth mis ar ôl i gymryd rhan yn y rhaglen ailsefydlu a chael budd o allu symud ymlaen i waith cyflogedig cyn eu rhyddhau. (2.173)
- 3.66 Dylid asesu carcharorion ym Mrynbuga yn ystod eu hymsefydliad am unrhyw anghenion cyngor cyllid, budd-daliadau a dyledion. (2.178)
- 3.67 Dylid sefydlu canolfannau ymwelwyr ym Mrynbuga a Phrescoed. (2.185)
- 3.68 Dylai'r sefydliad hyrwyddo'r broses ymweld drwy ddarparu cludiant i ac o'r gorsafoedd trenau gerllaw ar ddyddiau ymweld. (2.186)
- 3.69 Dylai Brynbuga a Phrescoed nodi unigolyn yr un i gefnogi a dwyn cysylltiadau rhwng carcharorion a'u teuluoedd ymlaen, os yn briodol. (2.191)
- 3.70 Dylid cynnig gwaith grŵp ysgogol gyda gwadwyr i'r holl garcharorion y mae eu hanghenion wedi'u pennu, a dylid gwerthuso'r canlyniadau. (2.193)
- 3.71 Dylai bod seicolegwyr siartredig ar gael i oruchwyllo'r holl raglenni trin troseddwy rhyw. (2.196)

## Atodiad I: Tîm Arolygu

---

Martin Lomas	Arweinydd Tîm
Jonathan French	Arolygydd
Keith McInnis	Arolygydd
Marie Orrell	Arolygydd
Gordon Riach	Arolygydd
Margot Nelson-Owen	Arolygydd Gofal Iechyd
Krystyna Findlay	Arolygydd OMI



## Atodiad IIa: Proffil poblogaeth carchar – Brynbuga

(i) Statws	Nifer y Carcharorion	%
Dedfrydwyd	247	100
<b>Cyfanswm</b>	<b>247</b>	<b>100</b>

(ii) Dedfryd	Nifer y carcharorion a ddedfrydwyd	%
Llai na 6 mis	2	1
6 mis - llai na 12 mis	4	1.61
12 mis - llai na 2 flynedd	14	5.66
2 flynedd - llai na 4 mlynedd	60	24.29
4 mlynedd - llai na 10 mlynedd	129	52.22
10 mlynedd a mwy (ddim oes)	14	5.66
Oes (ISPP)	24	9.71
<b>Cyfanswm</b>	<b>247</b>	<b>100</b>

### (iii) Hyd arhosiad - ni chyflenwyd y wybodaeth

(iv) Prif drosedd	Nifer y Carcharorion	%
Trais yn erbyn yr unigolyn	16	6.47
Troseddau rhywiol	228	92.3
Byrgleriaeth	1	.5
Troseddau eraill	2	.81
<b>Cyfanswm</b>	<b>247</b>	<b>100</b>

(v) Oed	Nifer y Carcharorion	%
21 i 29 oed	28	11.33
30 i 39 oed	53	21.5
40 i 49 oed	70	28.34
50 i 59 oed	41	16.59
60 i 69 oed	43	17.4
70 a hŷn: hynaf - 88	12	4.85
<b>Cyfanswm</b>	<b>247</b>	<b>100</b>

(vi) Cyfeiriad cartref	Nifer y Carcharorion	%
O fewn 50 milltir i'r carchar	102	41.3
Rhwng 50 a 100 milltir i'r carchar	64	26
Dros 100 milltir i'r carchar	74	29.96
NFA	7	2.83
<b>Cyfanswm</b>	<b>247</b>	<b>100</b>

(vii) Cenedligrwydd	Nifer y Carcharorion	%
Prydeinig	236	95.5
Gwladolion Tramor	11	4.5
<b>Cyfanswm</b>	<b>247</b>	<b>100</b>

<b>(viii) Ethnigrwydd</b>	<b>Nifer y Carcharorion</b>	<b>%</b>
<i>Gwyn:</i>		
Prydeinig	218	88.5
Gwyddelig	1	.5
Gwyn arall	13	5.5
<i>Cymysg:</i>		
Gwyn a Du Caribiaidd	3	1.4
Gwyn a Du Affricanaidd	1	.3
Gwyn ac Asiaidd	1	.3
<i>Asiaidd neu Brydeinig Asiaidd:</i>		
Bangladesaidd	1	.3
Asiaidd Arall	3	1.1
<i>Du neu Ddu Brydeinig:</i>		
Caribiaidd	3	1.5
Affricanaidd	1	.3
Du Arall	1	.3
<b>Cyfanswm</b>	<b>247</b>	<b>100</b>

<b>(ix) Crefydd</b>	<b>Nifer y Carcharorion</b>	<b>%</b>
Bedyddwyr	2	1
Eglwys Lloegr	117	117
Pabyddol	12	47.36
Enwadau Cristnogol eraill	11	5
Mwslemaidd	9	5
Bwdhaidd	7	2.8
Iddewig	1	.4
Eraill	9	3.64
Dim Crefydd	79	32
<b>Cyfanswm</b>	<b>247</b>	<b>100</b>

## Atodiad IIB: Proffil poblogaeth carchar – Prescoed

(i) Statws	Nifer y Carcharorion	%
Dedfrydwyd	166	100
<b>Cyfanswm</b>	<b>166</b>	<b>100</b>

(ii) Dedfryd	Nifer y carcharorion a ddedfrydwyd	%
Llai na 6 mis	18	11
6 mis - llai na 12 mis	10	6
12 mis - llai na 2 flynedd	17	10
2 flynedd - llai na 4 mlynedd	30	18
4 mlynedd - llai na 10 mlynedd	66	40
10 mlynedd a mwy (ddim oes)	12	7
Oes (ISPP)	13	8
<b>Cyfanswm</b>	<b>166</b>	<b>100</b>

(iii) Hyd arhosiad	Nifer y carcharorion a ddedfrydwyd	%
Llai na mis	41	25
1 mis i 3 mis	52	31
3 mis i 6 mis	30	18
6 mis i 1 flwyddyn	28	17
1 flwyddyn i 2 flynedd	8	5
2 flynedd i 4 mlynedd	5	3
4 mlynedd neu fwy	2	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>166</b>	<b>100</b>

(iv) Prif drosedd	Nifer y Carcharorion	%
Trais yn erbyn yr unigolyn	42	25
Troseddau rhywiol	1	1
Byrgleriaeth	12	7
Lladrad	10	6
Dwyn a thrin	14	8
Twyll a ffugio	3	2
Troseddau Cyffuriau	47	28
Troseddau eraill	37	22
Troseddau Sifil	1	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>166</b>	<b>100</b>

(v) Oed	Nifer y Carcharorion	%
18 i 20 oed	8	5
21 i 29 oed	64	38
30 i 39 oed	35	21
40 i 49 oed	39	23
50 i 59 oed	14	8
60 i 69 oed	5	3
70 a hŷn	1	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>166</b>	<b>99</b>

<b>(vi) Cyfeiriad cartref</b>	<b>Nifer y Carcharorion</b>	<b>%</b>
O fewn 50 milltir i'r carchar	99	59
Rhwng 50 a 100 milltir i'r carchar	36	22
Dros 100 milltir i'r carchar	20	12
NFA	11	7
<b>Cyfanswm</b>	<b>166</b>	<b>100</b>

<b>(vii) Cenedligrwydd</b>	<b>Nifer y Carcharorion</b>	<b>%</b>
Prydeinig	165	99
Gwladolion Tramor	1	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>166</b>	<b>100</b>

<b>(viii) Ethnigrwydd</b>	<b>Nifer y Carcharorion</b>	<b>%</b>
<i>Gwyn:</i>		
Prydeinig	146	88
Gwyddelig	1	1
Gwyn arall	8	4
<i>Cymysg:</i>		
Gwyn a Du Caribiaidd	4	2
Gwyn a Du Affricanaidd	1	1
Asiaidd neu Brydeinig Asiaidd:		
Pacistani	1	1
<i>Du neu Ddu Brydeinig:</i>		
Caribiaidd	5	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>166</b>	<b>100</b>

<b>(ix) Crefydd</b>	<b>Nifer y Carcharorion</b>	<b>%</b>
Eglwys Lloegr	40	24
Pabyddol	19	11
Mwslemaidd	4	3
Bwdhaidd	3	2
Iddewig	1	1
Erail	10	6
Dim Crefydd	89	53
<b>Cyfanswm</b>	<b>166</b>	<b>100</b>